

NEWYDDION



Tud 14-19: Gwobrau Teithio



*Tud 21: Difflaniad
Rhwlifoedd Everest*



*Tud 23: Tafllu goleuni newydd
ar esblygiad dyn*

Cynnwys

Tudalen glawr - Myfyrwyr y flwyddyn gyntaf ar y trip maes rhagarweiniol i'r Gogledd

Trip Maes Newydd

Tud 3-4 Y cwrs maes cyntaf i fyfyrwyr newydd yn mynd am y Gogledd

Profiadau Israddedigion

- Tud 5 Dysgu ffotograffiaeth yn Kenya – Tom Nolan
- Tud 6 Blwyddyn dramor yng Nghanada – Gabriela Ligeza
- Tud 7-8 Bali – Laura Truelove
- Tud 9 Llysgennad Daearyddiaeth – Geoffrey Main
- Tud 10 Y Gymdeithas *Tickled Pink* – Emma Beenham

Gwobrau a Chymdeithasau

- Tud 11-13 Cystadleuaeth Ffotograff a Ffilm 2015
- Tud 14-19 Gwobrau Teithio
- Tud 20 Helô gan y Gymdeithas Ddaearyddiaeth!

Chwyddwydr ar Ymchwil

- Tud 21 Gŵyl Gwyddoniaeth Haf y Gymdeithas Frenhinol
- Tud 22 Glaw trwm yr haf yn gyrru toddi cyflymach yn yr Ynys Las
- Tud 23 Prosiect Tyllu Chew Bahir: taflu goleuni newydd ar esblygiad dyn

Newyddion Adrannol

- Tud 24 Llongyfarchiadau
- Tud 25 Diwrnod ym mywyd... Catherine Cottrell
- Tud 26 Ar y silff lyfrau
- Tud 27 Rhagor o newyddion...

Golygwyd gan Marie Busfield



Mae'n bleser gennyf eich croesawu i gylchlythyr eleni. Mae hon wedi bod yn flwyddyn gyffrous i'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear am sawl rheswm.

Rydym wedi parhau i berfformio'n dda yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol a'r lefelau boddhad cyffredinol ar gyfer ein cynlluniau gradd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Rydym yn ymfalchio'n fawr iawn hefyd yn ein ffigyrau cyflogadwyedd rhagorol, sy'n dangos bod 96% o'n myfyrwyr mewn cyflogaeth neu wedi cofrestru ar gwrs ôl-raddedig chwe mis ar ôl graddio.

Fel y gwelwch o'r erthyglau amrywiol yn y cylchlythyr hwn, mae ein staff wedi bod yn hynod brysur drwy gydol y flwyddyn, gan wneud ymchwil arloesol mewn gwahanol lefydd ledled y byd. Mae rhai uchafbwyntiau yn cynnwys prosiectau ymchwil gan staff yr Adran ar gyd-destunau amgylcheddol esblygiad dynol cynnar, effeithiau newid yn yr hinsawdd ar rewlifoedd a llenni iâ, a daearyddiaethau globaleiddio a chymdeithas sifil yng Nghymru.

Ar yr un pryd, mae ein myfyrwyr hwythau wedi ymwneud ag amrywiaeth o wahanol weithgareddau, yn enwedig o ran eu defnydd o'n gwobrau teithio i ymweld â gwahanol rannau o'r byd. Nid yn unig y mae ein myfyrwyr yn cael cyfle i deithio yn y Deyrnas Unedig, Creta a Seland Newydd fel rhan o'u cyrsiau israddedig, ond gallant hefyd gael cyllid i gynllunio eu teithiau maes eu hunain i ranbarthau pellennig megis Bali, Norwy, Gwlad yr Iâ ac Alpau'r Ffrainc.

Yn olaf, rydym yn falch o fod wedi gallu ail-lansio ein cynllun gradd Gwyddor yr Amgylchedd. Fel rhan o'r fenter hon, rydym wedi bod yn ffodus i groesawu dau ddarlithydd newydd i'r adran, sef Dr Marie Busfield a Dr Joe Williams. Eleni hefyd gwelwyd lansio ein trip maes newydd i israddedigion i safleoedd sydd gyda'r gorau yn y byd ar garreg ein drws ar hyd arfordir Cymru a ledled Eryri. Roedd yr heulwen gogoneddus yn sicr wedi helpu i'w wneud yn llwyddiant mawr!

Wrth i chi ddarllen yr erthyglau amrywiol, gobeithio y cewch chi argraff gref o fywiogrwydd yr Adran ac ymdeimlad o agosatrwydd y gymuned yma sy'n cysylltu myfyrwyr a staff fel ei gilydd. Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu ag un o'n tîm recriwtio, drwy ymweld â gwefan yr Adran neu drwy ymweld â'r Adran ar ddiwrnod agored. Byddem wrth ein bodd yn eich croesawu a dangos i chi beth sydd gennym i'w gynnig.

Yr Athro Rhys Jones, Pennaeth Adran

Mynd am y Gogledd

Y cwrs maes cyntaf i fyfyrwyr newydd yn llwyddiant mawr!

Ym mis Hydref 2015 lanswyd y cwrs maes newydd i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf sy'n astudio daearyddiaeth a gwyddor yr amgylchedd. Aeth tua 130 o'n myfyrwyr newydd i'r Gogledd i gymryd rhan mewn tridiau o weithgareddau maes. Bu'r daearyddwyr ffisegol a gwyddonwyr yr amgylchedd yn archwilio problemau llifogydd arfordirol, effeithiau cloddio ar ansawdd dŵr yn afonydd Cymru ac effeithiau rhewlifant yn Eryri, yn ogystal â chwilio am olion effaith dynol ar yr amgylchedd yng nghorneli mwyaf anghysbell y Gogledd. Yn y cyfamser, dysgodd ein myfyrwyr daearyddiaeth ddynol am arferion rheoli coetir cynaliadwy, datblygiad y diwydiant beicio mynydd, a'r cysylltiadau rhwng Eryri a chelf a barddoniaeth ramantaidd.

Roedd y trip wedi rhoi profiad ymarferol o nifer o themâu a materion y bydd y myfyrwyr yn eu hwynebu yn eu hastudiaethau, ond yn fwy na hynny roedd y trip hefyd wedi eu helpu i ddod i adnabod ei gilydd a'u staff darlithio. Roedd y nosweithiau yn llawn hwyl, gyda'r gystadleuaeth poster i'r myfyrwyr a'r noson gwis (a enillwyd yn ddadleuol iawn gan y tîm ôl-raddedig – efallai gyda help rhai o'r staff) yn uchafbwyntiau cymdeithasol i'r trip.

Roedd yr adborth gan yr holl fyfyrwyr a'r staff a fynychodd y trip yn gadarnhaol. Ymddengys fod y cwrs maes wedi helpu myfyrwyr i ymgartrefu yn eu bywyd yn y brifysgol ar yr un pryd â dysgu am ddaearyddiaeth ddiddorol Cymru.

Chwilio am sgrafellu iâ wrth ymyl Llyn Llydaw



Mapio risg llifogydd ar hyd yr arfordir



Trafod rheolaeth a gweithgareddau antur coedwigoedd Coed-y-Brenin



Aseu pŵer llifogydd dinistriol Dolgarrog



Cerrig a chlogfeini enfawr wedi'u dadleoli gan y llifogydd



Rhai o'r staff oedd yn helpu rhedeg y trip



Ffotograffiaeth Kenya

Tom Nolan, Blwyddyn 1af
Gwyddor Amgylcheddol (F750)

Yr haf hwn cefais y profiad anhygoel o ddysgu ffotograffiaeth i ysgolion a theatrau yn Nakuru, Kenya. Gyda chymorth y cwmni gwych, Gap Creative, teithiais i Nairobi ac yna taith dair awr i'r gorllewin i Nakuru lle arhosais am 4 wythnos. Ynghyd â phedwar arall a oedd yn dysgu amrywiaeth eang o gyfryngau creadigol o ddawns i theatr, byddwn yn mynd i'r dref bob dydd i gyflwyno disgyblion mor ifanc â 10 oed i fanteision enfawr camerâu. Sylweddolais fod yn rhaid i mi ddefnyddio amrywiaeth fawr o arddulliau darlithio gwahanol.

Roedd rhai ysgolion â phlant iau wedi arfer â dysgu ar fformat ystafell ddosbarth llym iawn, a doeddynt erioed wedi gweld camera o'r blaen. Roedd dysgu yn y theatr yn y dref gyda phobl hŷn, fwy gwybodus a oedd yn gwirfoddoli yno yn llawer mwy hamddenol. Drwy drafod beth roeddyn yn ei wneud yn ôl yn Aberystwyth, daeth un ysgol i wybod am fy ngwaith gyda chyfryngau myfyrwyr Aberystwyth fel dylunydd graffeg ac felly fel tîm aethom ati i ddatblygu cylchgrawn ysgol newydd a hwythau wedi ysgrifennu amrywiaeth enfawr o erthyglau ar ei gyfer. Ar ôl iddyn nhw ysgrifennu'r erthyglau a minnau wedi eu helpu i dynnu lluniau, rhoddais y cyfan at ei gilydd ar fy ngliniadur ac yna talodd ffrind a minnau am argraffu ychydig gopiau ar gyfer eu hysgol. Cefais y fath foddhad o weld wynebau'r plant ifanc yn gwenu wrth weld beth roedden nhw wedi'i gyflawni.

Yn rhodd am y dysgu, aethpwyd â ni ar deithiau i rai o ardaloedd mwyaf hardd, diddorol ac, ar adegau, diffaith Kenya. Roedd digonedd o lewod, jiraffod, eliffantod, fwlturiaid a llawer o anifeiliaid eraill ar y saffaris o amgylch Llyn Nakuru a'r Maasai Mara yn ogystal â hipopotamysau a chrocodeiliaid yn Baringo. Aeth un saffari â ni i graig sy'n cael ei hadnabod yn lleol fel 'Craig Attenborough' gan fod David Attenborough ei hun wedi ffilmio sawl cyfres am y '5 mawr' yno. Yma hefyd buom yn ddigon ffodus i weld fflamingos yn ymfudo ar y llyn a hwythau ond wedi dychwelyd yn ddiweddar oherwydd newid mewn patrymau mudo.

Nid yn unig roedd y daith hon wedi fy helpu yn fawr iawn i ddatblygu fy sgiliau fy hun i wella fy musnes ffotograffiaeth, ond roedd helpu i ddysgu pobl ifanc frwdfrydig ac awyddus Kenya yn brofiad mor werth chweil.

Os hoffech helpu drwy ddysgu cyfrwng creadigol o'ch dewis chi drwy'r cwmni gwych hwn, cysylltwch â mi i gael rhagor o wybodaeth ar ton4@aber.ac.uk.



Blwyddyn Dramor

Gabriela Ligeza

3eddd flwyddyn Gwyddor
Daear Amgylcheddol (F640)

Llynedd, diolch i'r Swyddfa Astudio Dramor, cefais gyfle gwych i dreulio fy ail flwyddyn ym Mhrifysgol Ottawa, Canada. Roedd yn brofiad anhygoel a dyma benderfyniad gorau fy mywyd. Roedd y cyfnewid myfyrwyr hwn yn brofiad cyfoethog – cefais ymarfer fy Ffrangeg, teithio Gogledd America, gwneud ffrindiau o gwmpas y byd, byw mewn gwlad newydd, ond fe wnaeth fy helpu yn fawr hefyd gyda fy natblygiad proffesiynol, drwy astudio yn un o brifysgolion gorau'r byd. Cafodd y modiwlau a astudiais ym Mhrifysgol Ottawa hefyd effaith ar y pwnc a ddewisais ar gyfer y traethawd hir rwy'n ei wneud eleni. Ymunais ag AIESEC, sefydliad i hyrwyddo interniaethau a gwirfoddoli i fyfyrwyr yn fyd-eang. Cefais rôl Rheolwr Cyfnewid Rhyngwladol, a hynny wedi fy helpu gyda fy hyder, sgiliau rheoli a siarad cyhoeddus, yn ogystal â rhoi'r cyfle i mi gyfarfod arweinwyr ifanc o Ganada.

Hefyd, oherwydd y cwrs daeareg, cefais gyfle i ymweld â llawer o lefydd yn Ontario a Quebec yn ystod teithiau maes. Cyn hynny, roedd Canada yn wlad ddiethr i mi, ond ar ôl y llynedd dysgais lawer am y wlad hardd, amlddiwylliannol ac amrywiol hon.


Dros gyfnod y Nadolig, penderfynais wneud yr hyn rwy'n ei fwynhau fwyaf felly teithiais i'r Bahamas i wirfoddoli am fis. Yno bŵm yn byw gyda theulu o'r Bahamas felly cefais brofi diwylliant Môr y Caribi yn uniongyrchol. Deuthum yn aelod o'u teulu a hyd yn oed yn

fam fedydd i fabi bach! Gwneuthum sawl cyfeillgarwch a fydd yn para am byth rwy'n siŵr.

Ar ôl cwblhau blwyddyn academiaidd yn Ottawa, euthum i deithio o gwmpas Canada a gwelais lefydd megis Toronto, Mississauga, rhaeadr Niagara a llawer mwy.

Pan gyrhaeddais yn ôl i Ewrop treuliais fis yn gwneud interniaeth yng Nghanolfan Ymchwil y Gofod yng ngwlad Pwyl yn dadansoddi delweddau lloerennau, a chefais gyfle hyd yn oed i ymuno â phrosiect a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd ym maes GIS ac Arsylwi ar y Ddaear.

Gallwn sôn yn ddiidwedd pa mor wych oedd fy mlwyddyn dramor. Hoffwn ddiolch o galon i'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear a'r Swyddfa Astudio Dramor am roi'r cyfle gwych hwn i mi dreulio'r flwyddyn yng Nghanada. Hoffwn annog pawb i fanteisio ar y cyfleoedd y mae Prifysgol Aberystwyth yn eu cynnig i chi adeiladu ar eich datblygiad personol a phroffesiynol.



Gwobr Deithio Gareth Thomas 2015

Laura Truelove Enillydd gradd Daeryddiaeth (F800)

Ar ôl ennill gwobr deithio Gareth Thomas, fwrdd â mi i Bali, Indonesia am saith wythnos. Hedfanais o faes awyr Heathrow gyda Qatar Airways; y tro cyntaf i mi fynd ar awyren ar fy mhen fy hun. Er gorfod newid awyren ddwywaith, un yn Qatar a'r llall yn Jakarta, er syndod mawr cyrhaeddais Bali – ynghyd â fy mag cefn anferth a'r bwrdd syrffio. Y prif amcanion a osodais cyn dechrau ar fy siwrnai oedd dysgu am ffordd Bali o fyw, syrffio ar draethau anghysbell a gweld peth o fywyd gwyllt Bali. Ychydig a wyddwn y byddwn yn profi cymaint mwy na hynny. Cofnodais bob profiad drwy gydol fy nheithiau yn fy nyddiadur teithio a'i gyhoeddi ar fy mlog www.truelovestravels.com. Ar fy nheithiau dysgais Indoneseg i safon lle gallwn yn y diwedd gynnal sgwrs â phobl leol. Nofiais gyda chrwbanod y môr ar Ynysoedd Gili Lombok, profiad fydd gyda mi am byth. Dysgais gymaint am y gwahanol grefyddau a chredoau sy'n bodoli yn Bali a'r ynysoedd gerllaw, ac roedd hynny bron yn anochel gan fy mod wedi cael profiad o sawl gŵyl grefyddol yn ystod fy arhosiad, gan gynnwys Ramadan a Galungan. Gyda fy mhartner Harry, teithiais i ddwyrain, gorllewin a de arfordir Bali, i'r mynyddoedd yn y canol a hefyd i ynysoedd Nusa Lembongan a Gili Trawangan, un o'r nifer o gadwynau bychain o ynysoedd oddi ar dir mawr Lombok.



Ubud

Dechreuais ar fy nheithiau yn Ubud, gan archwilio troedfryniau caeau reis Gianyar. Arhosais mewn tŷ pren traddodiadol Bali, wedi'i gerfio â llaw, ac wedi'i amgylchynu â chaeau reis, a dim yn aflonyddu ar y lle ond sŵn cawcian llyffantod. Mae Ubud yn ddelfrydol i feganiaid a charedigion y ddaear, ac yn lle perffaith i gysylltu â natur, bwyta bwydydd naturiol, organig a gwneud ioga. Mae hefyd yn gartref i artistiaid mwyaf talentog y byd. Dyma brifddinas celf Bali, ac mae paentwyr, cerflunwyr a dawnswyr Indonesia yn dod â'r parch uchaf i'w teuluoedd drwy arddangos eu doniau artistig ar y strydoedd prysur hyn. Mae'r dref fach hon wedi'i llenwi ag amgueddfeydd celf ac arddangosfeydd artistig. Bob min nos o fewn muriau Palas Ubud mae dawnswyr legong traddodiadol yn perfformio dawnsfeydd sy'n ymgorffori creaduriaid a chwedlau crefyddol a diwyllianol. Ar gyrion y dref, mae coedwig mwnciod Ubud yn gartref i gannoedd



o fwnciod sy'n amddiffyn y temlau Hindwaidd hynafol a'r llystyfiant cyfagos sydd wedi tyfu'n wyllt. Mae babanod y mwnciod yn teithio o gwmpas y goedwig fawr drwy gydio'n dynn ym moliau eu mamau a'r mamau gofalgar hwythau yn eu diogelu rhag y gwrywod ymosodol. Mae twristiaid yn heidio yma o bob cwr i weld y mwnciod yn eu cynefin naturiol ac yn prynu bananas i'w bwydo. Ychydig filltiroedd y tu allan i Ubud, yn Petulu, mae ffenomen debyg i heidiau drudwy Aberystwyth yn

digwydd, sef crehyrod du a gwyn yn dod i glwydo. Mae pobl yn ymgynnull yn y tŵr gwyllo yn y pentref bychan hwn i wyllo wrth i niferoedd mawr o'r adar hedfan dros y caeau reis ar adeg machlud i nythu yn y coed.

Medewi a Balian

Yr ail le i mi deithio iddo oedd Medewi, sef pentref bychan ar arfordir gorllewin Bali. Mae Medewi, yn wahanol i'r rhan fwyaf o Bali, yn cynnwys cymuned fawr o Fwslimiaid yn hytrach na Hindwaidd. Mae syrffwyr yn ymweld â'r fan hon i syrffio ar doriad araf craig Medewi sydd wedi'u leoli ar ben lôn sy'n llawn cartrefi i aros ynddynt a gwestai sydd wedi'u hysbrydoli gan y syrffio. Am £5 y noson yn unig, arhosodd Harry a minnau yng nghartref menyw leol, Pitri. Roedd Pitri a'i mab, Hassim, yn gyfeillgar iawn ac yn barod iawn i helpu pan sefais yn ddamweiniol ar fôr-ddraenog wrth syrffio ar adeg llanw isel. Mae'r bar y mae'r tonnau yn torri drosto ar lan môr Medewi yn drwch o fôr-ddraenogod, ac roeddwn yn ddigon anlwcus i ddioddef eu hasgwrn cefn mawr. Mi wnes i ddysgu o'r profiad hwn beth bynnag, a phe bai'n digwydd eto yna mae lemon a dŵr poeth yn hollbwysig i doddi'r carbonad calsiwm.

Ar ôl tridiau, dyma adael Medewi a theithio tuag awr am y de am i bentref Hindwaidd o'r enw Balian. Mae Balian hefyd yn gartref i brêc syrffio enwog ac yn ôl y sôn mae yma siarcod riff sy'n ymddangos amlaf yn ystod y tymor gwlyb. Yn ffodus i ni, roedd ein hymwelid yn ystod y tymor sych. Yn Balian cawsom wers ariannol. Mae tyllau yn y wal yn brin ym mhentrefi anghysbell Bali, ac yn aml yn benodol ar gyfer rhai mathau o gardiau yn unig. Er bod gennym sawl math o gerdyn, cawsant oll eu gwrthod, ac fe'n gorfodwyd i adael y pentref arfordirol hardd hwn ac anelu am dref fwy poblog sydd â sawl twll yn y wal.

Canggu a Seminyak

Mae Canggu yn llawn syrffwyr a dyma'r ardal sydd fel arfer yn denu niferoedd mawr o dwristiaid o Awstralia. Mae'r sawl brêc sydd yn y traeth yn yr ardal hon yn denu pob math o syrffwyr, o ddechreuwr i rai profesiynol. Gyda'r nos, mae pobl yn ymgynnull yma i wyllo'r machlud ac eistedd gyda pheint i wyllo'r haul yn diflannu i'r môr. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Canggu wedi dod yn un o ardaloedd mwyaf datblygedig Bali. Erbyn heddiw, mae alltudion o wledydd

eraill wedi sefydlu eu cartrefi a'u busnesau yma sydd wedi annog datblygiad bwyta'i ffasiynol, filas, siopau dillad wedi'u hysbrydoli gan y syrffio a salonau harddwch sydd wedi cymryd drosodd y caeau reis a oedd yn arfer bod yn frith ar y dirwedd.

Yn ystod ein harhosiad yn Canggu cawsom brofiad o wyl grefyddol Hindwaidd, sef y Galungan. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r cymunedau Hindwaidd yn mynd ati â llaw i wneud addurniadau crefft lliwgar, wedi'u haddurno â phetalau i'w harddangos y tu allan i'w cartrefi ac ar y strydoedd. Mae'r Galungan yn para ychydig wythnosau, ac mae'n gyfnod i groesawu ysbryd da'r duwiau Hindwaidd a hynafiaid ymadwedig i gartref y teulu gydag offrymau sy'n draddodiadol yn fwy afradlon na'r rhai a gynigir bob dydd, fel blodau arbennig neu wahanol fathau o fwydydd, satays cyw iâr yn aml. Nid yw teuluoedd crefyddol Hindwaidd yn mynd i'r gwaith ar ddyddiau pwysicaf Galungan er mwyn gallu mynd i'r temlau i weddio. Mae pobl sy'n dilyn y grefydd Hindwaidd, ar ddiwrnodau arferol, fel rheol yn cynnig offrymau a gweddïau i'w duwiau deirgwaith y dydd, sef yn y bore, prynhawn a gyda'r nos. Mae'r gweddïau a'r offrymau yn cynyddu yn ystod Galungan, ynghyd ag arogl gwych a dwys aroglarth yn llosgi.

Mae Seminyak yn llawer prysurach na Canggu, gyda mwy o siopau, bwyta'i, bariau a chlybiau, a thraffig llawer gwaeth, sy'n golygu mai dim ond ar sgwter petrol y mae'n bosibl teithio. Gan ei fod ymhellach i mewn i'r tir ac yn agosach at faes awyr Kuta a Ngurah Rai, Seminyak o bell ffordd yw un o fannau twristiaid prysuraf yr ynysoedd. Yn wir, dyma un o ardaloedd drutaf ac sydd wedi'i globaleiddio fwyaf ar yr Ynys. Mae hefyd yn ardal yn Bali sy'n enwog am ei masnach gyffuriau hanesyddol fel y datgelwyd yn "Snowing in Bali" gan Kathryn Bonella.

Y Bukit

Ar ôl treulio rhywfaint o amser yn Canggu a Seminyak, teithio i'r Bukit oedd ein hanes wedyn. Mae'r Bukit ar benrhyn deheuol Bali ac yn fy marn i dyma ran harddaf arfordir Bali. Dyma'r ardal enwocaf o bell ffordd am syrffio ar yr ynys, gan ei fod yn gartref i Uluwatu; brêc syrffio gyda'r gorau yn y byd sy'n agored iawn i ymchwydd y môr. Wrth deithio o amgylch y Bukit, arhosom yn Bingin. Fel yr holl bentrefi eraill ar y Bukit, lleolir Bingin ar ben clogwyn, ac yn llawn mwnciod, blodau gwyllt, syrffwyr, teithwyr a bwyta'i. I'r dde o Bingin mae

Dream Land, sef traeth tywod gwyn, wedi'i ddfifetha gan ddatblygiad gwesty Japaneaid mawr. Ac i'r dde o Dream Land wedyn mae Traeth Balangan. I'r chwith o Bingin y mae'r breiciau syrffio enwocaf, sef yr Impossible a Padang Padang. Yn ystod ein harhosiad yma, roeddem yn ddigon ffodus i weld ymchwydd enwog y Muzza yn cyrraedd o Awstralia. Gwylom y syrffwyr mwyaf talentog y byd yn syrffio ton daranllyd Padang Padang a honno'n dyblu uwch eu pen. Yn ystod yr ymchwydd hwn ar y môr, Uluwatu oedd y mwyaf trawiadol o bell ffordd, gan ddenu pobl o bob cwr i wyllo syrffwyr dewraf yn reidio'r tonnau mwyaf yr ydwi i erioed wedi'u gweld. Buom ni'n gwyllo o Deml Uluwatu wrth i'r tonnau orthogonol ffurfio ar y gorwel, gan wedyn deithio tuag atom a chwalu ar droed y clogwyn oddi tanom. Roedd y mwncïod yn crwydro fel y mynnant ar do'r deml sanctaidd, heb sylwi ar y storm yn codi allan ar y môr. Treuliom amser yn syllu arnynt wrth iddynt fynd heibio neu wrth iddynt dynnu ar y sarongau sidan porffor traddodiadol yr oedd y rhaid i ni eu gwisgo i fynd ar dir y deml.

Gan fod traethau ar y Bukit yn brysur iawn oherwydd y tonnau perffaith yno, aethom i chwilio am draethau tawelach i syrffio a mwynhau'r unigedd. Daethom o hyd i Nyang Nyang ac er ei fod wedi'i leoli ger Uluwatu dyma un o'r traethau anoddaf ei gyrraedd ar y Bukit. Roedd rhaid inni gerdded dros chwe chant o risiau i lawr clogwyn oedd bron yn fertigol, a mwncïod gwyllt yn siglo yn y coed ar y clogwyni gerllaw. Wrth inni gyrraedd y gwaelod, roedd rhagor o fwncïod yn chwarae ar y tywod gwyn, roedd teirw yn pori ar wreiddiau'r coed ac roedd madfallod yn torheulo yn yr haul ganol dydd. Ymfalchiais yn fawr yn fy nghamp yn gosod hamog i fynd am y tro cyntaf ar fy mhen fy hun bach ar set berffaith o goed palmwydd ar ôl y daith gerdded hir a blinedig. Dyma oedd paradwys, heb enaid byw arall yn y golwg. Mwynhaom syrffio'r tonnau perffaith ar ein pennau ein hunain, gan edrych i lawr ar y rîff lliwgar a'r amrywiaeth o bysgod a oedd yn byw ymysg y cribynau dyfrol oddi tanom. O chwilio ymhellach ar hyd y traeth, daethom o hyd i hen longdrrylliad; gallech hyd yn oed ddringo i mewn i gaban y cwch. Yn anffodus mae'r traeth hwn yn dioddef o ddrifft arfordirol, ac roedd yn llawn sbwriel, felly yn naturiol casglom yr hyn y gallem ohono a'i gario gyda ni yn ôl i frig y clogwyn. Mae gan Bali broblem sbwriel enfawr sy'n effeithio ar boblogaeth crwbau y môr. Mae llawer o gynlluniau megis 'Tidak Plastik' a 'Keep Uluwatu Clean' yn Uluwatu yn ceisio gwella'r broblem hon, ac ymddengys fod ymwybyddiaeth yn cynyddu.

Ymhellach i'r gogledd na Bingin, teithiom i Jimbaran. Yma mae Honeymoon Bay, neu bae ceg y morfil fel yr hoffwn i ei alw oherwydd fod ei benrhyn fel morfil a'i geg yn agored. O'r penrhyn hwn buom yn neidio oddi ar glogwynni. Ar draeth Jimbaran eisteddom gyda'r cregyn bylchog mewn saws melys sambal a'r pysgodyn coch ffres yr oeddem newydd ei ddal a gwyllo'r tân gwyllt uwch ein pennau.

Ynysoedd Gili

Ar ôl hanner awr o fargeinio ynghylch y pris, cawsom ein codi yn y diwedd gan fws gwennol. Taith dwy awr o Kuta i Padang Bai. Yn Padang Bai, arhosom yn amyneddgar i'n cwch gyrraedd a chael ein plagio gan fenywod lleol yn ceisio gwerthu bywyd a diodydd inni o'r basgedi oedd ganddynt

ar eu pennau. Ar ôl taith gwch ysgygiog, cyrhaeddodd Gili Trawangan. Gan nad oedd ceir na sgwteri petrol yn cael eu caniatáu yma, teithiai pobl o amgylch yr ynys ar geffyl a chert. Caiff y ceffylau yma eu trin yn wael iawn, a'u disgwyliad oes yw tua thair blynedd yn unig. Y diwrnod cyntaf y cyrhaeddodd oedd diwrnod cyntaf Ramadan. Am chwech o'r gloch bob bore galwai'r alwad i weddio o fosc yr ynys a deuai pawb o bob cwr o'r ynys i weddio. Bob bore roeddem yn codi'n gynnar gyda phobl yr ynys ac yn gwneud ein ffordd i Turtle Bay gyda'r gogls a'r snorceli y daethom gyda ni a nofio allan i ymyl y rîffiau ac aros ymhlith y slefrod môr i grwbauod y môr ddod i'r golwg. Ar ein diwrnod cyntaf o blymio, tri chrwbau yn unig a welsom, ac un ohonynt wedi colli un o'i esgyll a ninnau'n tybio bod hynny o bosibl wedi digwydd oherwydd gwrthdaro â chwch pysgota gan eu bod yn tueddu i ollwng eu hangor yng nghyffiniau ardaloedd bwydo'r crwbauod. Ar ein hail ddiwrnod yn plymio roeddem yn ffodus i weld dros ddeg crwbau y môr mewn dim ond ychydig o oriau. Roedden nhw'n ddigon agos inni eu cyffwrdd ac wrth i mi roi fy llaw allan, nofiodd un heibio a chyffyrddais â'i gragen. Bob nos, adeg y machlud, wrth i'r ymptydio ddod i ben am y diwrnod, roedd yr awyr ar Gili Trawangan wedi'i lenwi ag arogleuon rhyfeddol sambal, saws cnau, pysgod, cyw iâr, crempog ar arddull Indonesaidd a phob math arall o fwydydd blasus o'r farchnad fwyd leol.

Sanur a Jasri

Penderfynom fynd ar hyd arfordir dwyrain yr ynys a mynd am Sanur i aros mewn fila braf, mewn pryd i gael canlyniad fy ngradd. Ail ddosbarth uchaf gydag anrhydedd a dosbarth cyntaf yn fy nhraethawd hir; roeddwn uwchben fy nigon. Mae arfordir y dwyrain yn llawer llai datblygedig ac yn cael llai o ymwelwyr na de a gorllewin arfordir Bali, er bod Sanur wedi denu rhywfaint o ddatblygiad, sef yn bennaf gwystai moethus, pum seren sydd fel petaent yn denu llawer o briodasau a chyplau ar eu mis mêl; dim syndod o gwbl o ystyried y traethau bach tawel hardd gerllaw. Buom yn syrffio tonnau grisial y Sanur; roedd y dŵr yma mor glir gallech agor eich llygaid wrth blymio i mewn i weld y casgliad lliwgar o bysgod yn bwydo oddi ar y rîff. Ymwelom â hen barc safari mewn pentref gerllaw ac yn ôl y sôn roedd hwn wedi'i gau dros ddeng mlynedd yn ôl ond bum mlynedd yn ôl roedd dros dri chant o grocodeiliaid yn byw mewn dyfroedd llonydd y tu mewn i'r adeiladau, a'r bobl leol wedi gorfod eu saethu i'w hatal rhag dianc i'w pentref.

Roeddem wedi clywed pethau da am Jasri, ardal ychydig o oriau i'r gogledd o Sanur, a dyma benderfynu teithio yno i aros am ambell noson. I lawr y ffordd o'r cartref lle roeddem yn aros roedd ffatri siocled, yn eiddo i syrffwr o Awstralia a oedd wedi darganfod yr ardal ddeugain mlynedd yn ôl ac wedi penderfynu adleoli yma a sefydlu ffatri siocled fel busnes, a hynny reit ar y traeth ymhlith y coed palmwydd. Yn eironig, ei enw oedd Charlie. Roedd y ffatri yn bennaf yn denu twristiaid a oedd wedi gweld lluniau o siglen enfawr wedi'i chodi ymysg siediau pren y ffatri, siglen sy'n siglo reit dros y môr. Aethom i syrffio'r brêc a ddenodd Charlie yma deall pam ei fod wedi'i gyfareddu wrth i grwbauod y môr godi dro ar ôl rhwng y tonnau. Wrth ymlacio ar y traeth gro ar ôl y syrffio, dyma sylwi ar yr aderyn cornylfin (hornbill) mewn



coeden uwch ein pen. Roedd lled ei adenydd yn enfawr wrth iddo ddod i lawr i eistedd wrth ein hymyl. Buom yn taflu cerrig mân ato ac yntau yn eu dal yn ei big, fel chwarae dal.

Nusa Lembongan

O Sanur, aethom ar gwch cyhoeddus, bach iawn gyda phobl leol oedd ar daith diwrnod i'r ynys. Glaniom yn Mushroom Bay a llogi beic i deithio draw i'r Bae nesaf dros ffordd anwastad, droellog. Arhosom yng ngwesty Nikita, oedd yn edrych dros dri brêc rîff enwog yr ynys, sef Playgrounds, Shipwrecks a Lacerations. Treuliom bob dydd yn syrffio ac yn sefyll ar fwrdd padlo wrth fynd o amgylch yr ynys. Coedwig Mangrof Nusa Lembongan oedd un o'r rannau mwyaf hudol yr ynys o bell ffordd. Roedd pobl leol yn llogi cychod pren, traddodiadol am ffi fechan, ac yn aml yn gwneud i'w meibion wthio'r cwch o gwmpas y goedwig fel gondola. Eisteddom wrth i Gede ein gwthio ni drwy'r dŵr hallt a gwreiddiau'r mangrof mewn distawrwydd pur.

Mynyddoedd y Canol

Aeth ffrind inni sy'n Indonesiad, sef Putu, â ni i fyny i fynyddoedd oer, canolog yr Ynys i ddangos Strawberry Hill, lle caiff mefus mwyaf ffres a mwyaf blasus yr ynysoedd eu tyfu a'u casglu â llaw. Gwleddom ar ddigonedd o fefus cyn mynd ar goll yn y bryniau yn chwilio am raeadr. Ar ôl reidio ar feic am ddwy awr ar ffyrdd oer a gwlyb y mynydd, gostyngodd y tymheredd ac aethom i'r ffron boeth leol. Sicrhodd Putu na fyddai unrhyw dwristiaid yma ac roedd yn llygad ei lle. Dim ond pobl leol a ddeuai yma i fwynhau'r ffron boeth hon. Wedi'u cynhesu gan wres geo-thermol, naturiol, mae'r ffronhonnau poeth hyn wedi'u cuddio yn y llystyfiant ac ni chânt eu hysbysebu i ymwelwyr yr ynysoedd. Wrth orwedd yn y pwll mwyaf, o dan y bibell oedd yn rhyddhau dŵr ffres yn llifo o'r ffronhonnau, ac yn edrych dros y rhaeadr gerllaw a'r blodau gwyllt, lliwgar, teimlwn fel petawn mewn paradwys paradise.

Dychwelyd Adre

Dod adref oedd rhan anoddaf fy nheithiau yn bendant. Ond mi wnes i er hynny ddod â'r nifer lu o brofiadau rhyfeddol, gwybodaeth a sgiliau yn ôl gyda mi o fy siwrnai. Ychydig a wyddwn y byddai'r gwaith ysgrifenedig a luniais yn ystod fy nheithiau yn y pen draw yn ennill lle i mi ar y cwrs MA mewn Ysgrifennu Natur a Theithio ym Mhrifysgol Spa Caerfaddon, gan roi modd imi barhau â fy mreuddwyd o ysgrifennu am deithio. Oherwydd Gwobr Deithio Gareth Thomas, roeddwn wedi cael rhai o brofiadau mwyaf cofiadwy fy mywyd, dysgu iaith newydd, dod i wybod mwy am ddiwyllianau a chrefyddau, gweld un o'rannau harddaf y byd a syrffio rhai o'r donau gorau'r byd.



Lledaenu'r Cariad at Ddaeryddiaeth

Fy mywyd fel Llysgennad Daearyddiaeth yr RGS.

Geoffrey Main Enillydd gradd Daearyddiaeth (F800) a gradd Meistr Polisi Amgylcheddol a Rhanbarthol (L796)

Yn ystod fy mlwyddyn olaf yn y chweched dosbarth, deuthum i wybod am gynllun yn cael ei redeg gan yr RGS lle roedd israddedigion, ôl-raddedigion a graddedigion prifysgol yn mynd i ysgolion yn eu hardal leol i siarad â'r disgyblion am y ddisgyblaeth hynod ddiddorol daearyddiaeth. Roedd hyn yn rhywbeth roeddwn wastad wedi eisiau ei wneud, cael rhoi rhywbeth yn ôl i'r athrawon a'r ysgolion oedd wedi fy ysbrydoli i barhau ar fy siwrnai ym maes daearyddiaeth – ac i ysgolion eraill hefyd, felly pan glywais am y cynllun roeddwn yn benderfynol o gymryd rhan.

Ar ôl fy hyfforddiant ym mis Hydref 2011, mi wnes fy ymweliad cyntaf ar ddechrau mis Ionawr 2012, yn fy hen ysgol uwchradd ac i'r athrawes ddaeryddiaeth a oedd wedi tanio fy angerdd at ddaeryddiaeth yn y lle cyntaf. Roedd hwn yn mynd i fod yn ddiwrnod mawr, ac mae'n ddigon gwir dweud fy mod ychydig yn nerfus – yn enwedig gan fod fy mrawd bach a'i ffrindiau yn mynd i fod yn y dosbarth! Wrth ddarllen hwn nawr, rwy'n siŵr fod llawer ohonoch yn meddwl na allech chi byth godi o flaen grŵp o 30 o bobl ifanc 14-15 oed a chynnal sesiwn awr ar ddaeryddiaeth. Doeddwn innau ddim yn meddwl hynny chwaith. Ond ers y tro cyntaf

hwnnw, rwyf wedi cynnal cyfanswm o 6 sesiwn ar fy mhen fy hun i blant blwyddyn 9 mewn ysgolion yn fy ardal leol ac wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau yn yr RGS gyda myfyrwyr blwyddyn 12 o bob cwr o'r wlad.

Heblaw am y sgiliau rydych chi'n eu datblygu ar y cynllun (sydd yn edrych yn wych ar eich CV wrth gwrs) mae'r adborth a gewch gan fyfyrwyr a staff sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn un gwerth chweil. Megis disgybl yn dod atoch ar ddiwedd y sesiwn a diolch yn bersonol i chi, neu drwy glywed rhywbeth gan rywun arall, neu hyd yn oed yr athro yn dweud ei bod yn sesiwn wych... Does dim teimlad gwell i'w gael. Er mwyn "lledaenu'r cariad at ddaeryddiaeth" fel rydyn ni'n ei ddweud, yn gyntaf rhaid i chi fod yn frwdfrydig dros y pwnc – y mwyafr brwdfrydig yr ydych chi, y mwyafr bydd hynny'n dangos a'r mwyafr bydd myfyrwyr yn mwynhau eich sesiwn.

Pan ddewch yn Llysgennad fe gewch chi grys-t hyfryd sy'n gwneud i chi edrych fel Arwr Daearyddol, a byddwch hefyd yn dod yn rhan o'n teulu. Cewch wneud cysylltiadau newydd gydag ysgolion a gweithwyr proffesiynol, a gwneud ffrindiau agos â'r llysgenhadon eraill. Felly os ydych chi'n hoffi'r pwnc daearyddiaeth, yna dewch yn rhan ar bob cyfrif.





Ymgyrch CoppaFeel! a Gofal Cancr y Fron

Emma Beenham

2^{il} flwyddyn
Daearyddiaeth Ffisegol (F840)

[@abertickledpink](https://www.facebook.com/TPABER)

Mae gwaith elusennol yn rhywbeth rydym i gyd yn cael ein hannog i'w wneud o oedran ifanc, ac nid yw Ffair y Glas yn ddim gwahanol. Ond nid eich cangen elusen prifysgol arferol ydyn ni! O naci, rydyn ni'n hoffi gwneud pethau ychydig bach yn wahanol... Ni yw 'UniBoobTeam' Aberystwyth ac rydyn ni'n gwneud yn siŵr fod pobl ifanc yn dod i wybod am eu cyrff, yn enwedig eu bronau, er mwyn ceisio sicrhau nad yw canser y fron yn cael ei ganfod yn hwyr. Rydyn i'n cynrychioli *CoppaFeel!* a Gofal Cancr y Fron, dwy elusen ryfeddol sy'n bodoli'n unswydd i gefnogi'r rheini sydd â chanser y fron ac i godi ymwybyddiaeth o arwyddion a symptomau canser y fron.

Rydyn ninnau'n cefnogi ein helusennau drwy godi arian ac ymwybyddiaeth. Mae tri mis cyntaf eleni wedi bod yn llawn dop o ddigwyddiadau i ni, gan gynnwys y gwerthu cacennau sydd bob amser yn llwyddiannus a pheintio wyneb ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd. Mae'n hawdd iawn ein hadnabod yn ein cysau-t pinc llachar a bronau wedi'u llenwi â balŵns enfawr! Do, mi wnaethoch chi ddarllen hwnne'n gywir!

Roedd Ffair y Glas yn hynod lwyddiannus i ni ac fe wnaethom hefyd gynnal ambell i ddigwyddiad bach yn ystod yr wythnos gweithgareddau. Roeddem yn ddigon ffodus i gael ein gwahodd gan drefnwyr Blackhouse i godi arian ac ymwybyddiaeth yn ystod eu digwyddiad Hydref, a oedd hefyd yn cynnwys Bierkellar. Cawsom noson lwyddiannus iawn, yn ogystal â chael mynediad VIP i fwynhau'r digwyddiad o 11 o'r gloch ymlaen. Roedd ein gwerthiant cacennau cyntaf am y flwyddyn hefyd ar ddechrau'r Hydref, a llwyddom yn wych i godi £158.66, a hwnnw wedi'i rannu rhwng ein dwy elusen. Mae'n bosibl mai un o'r dulliau sy'n codi'r mwyaf o arian i ni yn ystod y flwyddyn yw ein calendr noethlymun blynyddol. Eleni digwyddodd hyn yn y Pier. Gwahoddwyd 12 o gymdeithasau a chlybiau chwaraeon i gymryd rhan, ac roedd Showdance, Real Ale a staff yr Undeb ymhlith rhai ohonynt.


Dechreuodd y diwrnod am 8:30am gyda phwyllgor *Tickled Pink* yn cael tynnu ein llun, ar ben y pier ac oddi tano mewn glaw mawr a gwynt oer (dyna i chi ymroddiad!) a rheddodd y sesiwn tan 4 y pwnn gyda slot

hanner awr i bob cymdeithas (a hoe cinio wedi'i drefnu, wrth gwrs). Diolch o galon i Keith Morris am fod ein ffotograffydd brwd arferol. Os hoffech gael calendr, cysylltwch â ni.

Rydyn ni i gyd yn hynod frwdfrydig dros y gwaith a wnawn, a dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydyn ni wedi tyfu'n aruthrol fel cymdeithas. Mae ein rhesymau dros godi arian yn amrywio i bob un ohonom, o brofiadau personol, bygythiadau canser y fron, neu dim ond brwdfrydedd i wneud gwahaniaeth ac i godi ymwybyddiaeth o rywbeth sy'n effeithio ar gyfnifer o fenywod a dynion. Rydyn ni i gyd wir yn mwynhau'r codi arian a wnawn, yn enwedig gan fod llawer ohono ychydig yn wahanol, gyda fflash mob a pharti gliter ar y gweill fel digwyddiadau gwahanol i'w cynnal, ond mae gennym hefyd ein nosweithiau cymdeithasol wythnosol ar thema wahanol bob nos Fawrth. Wrth gwrs, roedd ein noson gymdeithasol gyntaf ar y thema pinc, ond mae themâu eraill wedi cynnwys dod fel eich pwnc (a dyna i chi'r stereoteipiau lliwiau yn ymddangos) a digwyddiadau cymdeithasol ar y cyd, megis y Cythreuliaid yn erbyn yr Angylion, yn ogystal â nosweithiau cymdeithasol sobr.

Os ydych yn teimlo'n angerddol dros godi ymwybyddiaeth o ganser y fron a chael llawer o hwyl, yna mae croeso cynnes iawn i chi ymuno â ni! Os hoffech chi wybod mwy am y Gymdeithas gallwch ddod o hyd inni ar y cyfryngau cymdeithasol, neu e-bostiwch ni yn scty127@aber.ac.uk. Ac yna ewch i archwilio eich bronau!





**Pierre Lardeux -
CLOD UCHEL**

Lleoliad y ffotograff: Moscow, Rwsia

Dyma'r tri chategori:

Darganfod – Dod o hyd i rywbeth gwahanol, rhywbeth efallai nad oes neb arall erioed wedi dod o hyd iddo, neu ddelwedd sy'n amlygu llawenydd y darganfod.

Diddori – Dangos pobl yn ymddiddori'n uniongyrchol mewn Daeryddiaeth a Gwyddorau Daear, neu ddelweddau a fydd yn diddori pobl.

Ysbrydoli – Delwedd a'ch ysbrydolodd yn eich astudiaethau, ac a fyddai'n ysbrydoli eraill i astudio Daeryddiaeth a Gwyddorau Daear.

I'Gallai'r rhain fod yn ddelweddau o deithiau maes y buoch arnynt yn rhan o'ch astudiaethau neu o anturiaethau yn rhywle yn y byd!

Dyma'r gwobrau:

Y Ffotograff Gorau - £50 o dalebau Amazon

Y Ffilm Orau - £50 o dalebau Amazon

Y cynnig gorau ym mhob categori - £30 o dalebau Amazon

Cystadleuaeth Ffotograffiaeth a Ffilm 2015

Darganfod

Diddori

Ysbrydoli

I ni yn yr adran, dyna yw hanfod Daeryddiaeth a Gwyddorau Daear. Yn y gystadleuaeth eleni, roeddem am i'n myfyrwyr ddangos i ni'r hyn roedd y pethau hyn yn ei olygu iddyn nhw o safbwynt Daeryddiaeth a Gwyddorau Daear.

**Emily Brown -
CLOD UCHEL**

Lleoliad y ffotograff: Tromso, Norwy



Tomos Nolan - ENILLYDD CYFFREDINOL

Lleoliad y ffotograff: Y Friog, Gwynedd

*Josh a Heather yn chwilio am ddyddiad adeiladu'r amddiffynfeydd môr yn Fairbourne.
Doedden nhw ddim yn sylweddoli ei fod o dan eu traed!*



Tomos Nolan - ENILLYDD DARGANFOD

Lleoliad y ffotograff: Llyn Llydaw, Eryri



Tom Nolan – ENILLYDD DIDDORDI

Lleoliad y ffotograff: Creigiau â rhychau rhewlifol yn Llyn Llydaw, Eryri



Chloe Ludbrook - ENILLYDD YSBRYDOL

Lleoliad y ffotograff: Cofeb Vietnam, Washington DC



Gwobrau Teithio

Bob blwyddyn mae Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn cynnig hyd at 13 o wobrau teithio gwerth hyd at £400 yr un i fyfyrwyr sy'n awyddus i weld y byd. Dyma hanes rhai o'r rhai a lwyddodd i ddod 'nôl!

Alexandra Hallatt (Daearyddiaeth F800)

Gwlad yr Iâ: gwlad y tân a'r Iâ...



Ardal geothermol Gonguleidir sy'n cyflenwi pŵer a dŵr poeth i Reykjavik

Nod y wobr

Nod gwobrau teithio'r adran yw rhoi cyfle i'r myfyrwyr i deithio a gweld y byd drostynt eu hunain. Mae'n gyfle iddynt i ariannu eu gwaith ymchwil ac archwilio dramor, ac i weld Daearyddiaeth yn dod yn fyw yn y fan a'r lle!

I ble deithiais i a beth wnes i?

Bûm i a chyd-fyfyrwr yn yr adran Daearyddiaeth yn teithio am bythefnos ar hyd arfordir gorllewin a de Gwlad yr Iâ, a chawsom gyfle i weld amryw helaeth o wahanol nodweddion daearyddol gan gynnwys rhaeadrau, ffynhonnau poeth, pyllau geothermol a llosgfynyddoedd.

Cawsom gyfle hefyd i brofi diwylliant Gwlad yr Iâ drwy ymweld ag amryw o amgueddfeydd a mynd ar deithiau yn Reykjavik a thu hwnt i ddsygu am hanes cyfoethog yr ynys, ei ffordd o fyw, ei mythau a'i chwedlau.

Roedd sawl uchafbwynt i'r ymweliad gan gynnwys cael gweld fy rhewlif cyntaf erioed, mynd i'r Lagŵn Glas i fanteisio ar ganlyniadau mwy ymlaciol gweithgaredd geothermol ac archwilio dinas hardd Reykjavik.

Pa fudd oedd i'r profiad?

Roedd y buddion yn ddi-ri, o safbwynt academiaidd ac o safbwynt fy sgiliau personol. Wedi astudio modiwlau ar Geoberyglon a Gweithgarwch Llosgfynyddoedd: Peryglon a Newid Amgylcheddol yn yr ail a'r drydedd flwyddyn, roedd Gwlad yr Iâ yn lle delfrydol i weld nifer o'r prosesau a'r enghreifftiau yr oeddwn wedi eu hastudio yn fy narlithoedd.

Cefais gyfle hefyd i ddatblygu fy sgiliau cynllunio a threfnu. Drwy gyfrwng y grant hwn cefais gynllunio, trefnu, archebu a chyllidebu ar gyfer pythefnos o anturio ar draws Gwlad yr Iâ a threulio pythefnos gwych llawn golygfeydd ac atgofion a fydd yn aros gyda mi am byth diolch i wobrau teithio'r adran Daearyddiaeth!



Terfyn y rhewlif Sólheimajökull ar arfordir deheuol Gwlad yr Iâ



Gullfoss is made up of two waterfalls formed through glacial floods at the end of the last Ice Age



Thingvellir National Park is at the plate boundary between North American and Eurasian plate boundaries which are currently moving apart at the rate of a few cms each year



The Strokkur Geyser is one of the most active geysers in Iceland, erupting once every few minutes

Elis Llŷr Nutall (Daearyddiaeth F801) Ecuador a'r Amazon



Golygfa tua llosgfynydd Cotopaxi (tua 7 milltir i ffwrdd) a'r hostel lle roeddem yn aros. Gallwch weld y rhewlif ar gopa'r mynydd. Ers 1738 mae'r llosgfynydd wedi ffrwydro >50 o weithiau

Yn ystod haf 2015 cychwynnais ar daith wirfoddol gyda'r corff anllywodraethol 'Volunteer Eco-Students Abroad', a hynny gyda chymorth ariannol Gwobr Deithio Gareth Thomas. Mawr yw fy niolch am y cyfle unigryw hwn.

Fy nod yn anad dim oedd ymdrwytho yn y ffordd frodorol o fyw, ac archwilio rhyngweithio unigryw ecosystemau, cynefinoedd a diwylliant Ecuador drwy amryw o brosiectau gwirfoddoli. Roedd yn gyfle i mi i gael profiad o fod mewn amgylchedd naturiol heb ei ail. Rwy'n ymddiddori'n bennaf mewn gwarchod cynefinoedd naturiol, ac roedd y daith yn gyfle gwych i wella fy nealltwriaeth o ffordd cynaliadwy o fyw ac ecodwristiaeth yn y wlad.

Yn ystod yr wythnos gyntaf bŵm yn aros ym mhentref bychan Misahuhalli, ar lannau afon Napo, gan deithio bob dydd mewn canŵ i bentref anghysbell lle roeddwn yn dysgu Saesneg i'r plant, ac yn helpu i sefydlu cyflenwadau dŵr newydd, gwella'r systemau glanweithdra, a phaentio ac adnewyddu cyfleusterau'r ysgol.

Wedyn fe es i ar daith gerdded a chanŵio drwy goedwig law'r Amazon, yn dringo mynyddoedd yr Andes i dref hynafol Banos, yn archwilio llosgfynyddoedd a rhewlifoedd Parc Cenedlaethol Cotopaxi ac yn teithio y tu hwnt i arfordir Ecuador i gynefinoedd unigryw Ynysoedd y Galapagos. Rhoddodd y profiadau hyn flas i mi o wahanol amgylcheddau naturiol ac ecosystemau amrywiol y wlad.

Budd academiaidd

Roedd teithio i wlad sydd wrthi'n datblygu ei diwydiant ecodwristiaeth mewn amryw o wahanol amgylcheddau naturiol yn gyfle gwych i mi. Oherwydd ei daearyddiaeth amrywiol, mae Ecuador yn cael ei hystyried yn ardal o foamrywiaeth eithriadol. Roeddwn yn ymwybodol iawn o geisio cadw fy ôl troed carbon mor isel â phosib, a thrwy hynny cefais ddysgu llawer am arferion twristiaeth gynaliadwy ar raddfa leol a byd-eang, a'u cyfraniad pwysig i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

Oherwydd agwedd daearyddiaeth ffisegol fy nghwrs, diddorol oedd astudio



Rhai o'r plant lleol yn y pentref lle roeddem yn gwirfoddoli. Mae'r plant rhwng 5 a 13 mlwydd oed, ac yn cael addysg sylfaenol mewn Saesneg, Sbaeneg, iaith frodorol Quichua a mathemateg. Mae'n rhaid i'r plant hyn helpu eu teuluoedd â'r gwaith ffermio.



Aethom ar daith dridiau drwy goedwig law'r Amazon, a dysgu am foamrywiaeth, defnyddio planhigion meddyginiaethol a chamau i warchod y coedwigoedd, ynghyd â sut y caiff cymunedau lleol eu cynnal yn yr amgylcheddau hyn.



Cymysgu sment i adeiladu tanc carthion ar gyfer toiledau'r gymuned. Tra oeddem yno fe adeiladon ni 10 o flociau toiledau a dechrau adeiladu 5 arall, a helpu i adnewyddu'r ysgol leol a nifer o gyfleusterau eraill e.e. y cyflenwad dŵr.

llosgfynyddoedd y wlad, ei rhwydweithiau afonydd helaeth a'i thirlun dramatig. Mae cael y profiad unigryw o ddringo llosgfynydd byw a byw ar lannau'r rhwydwaith afonydd mwyaf yn y byd wedi rhoi i mi werthfawrogiad mwy o lawer o'u grym naturiol, ynghyd â'r heriau y mae'n rhaid i'r poblogaethau brodorol eu hwynebu i ddefnyddio'r adnoddau naturiol hyn.

Mae Ecuador yn wlad sy'n datblygu, a thua 70% o'i phoblogaeth yn byw mewn tldi, er bod y ffigur yn uwch o lawer mewn cymunedau gwledig ac yn arbennig felly yn y cymunedau brodorol. Cefais gyfle i ddysgu dros fy hun am boblogaethau brodorol y rhanbarth: eu diwylliant, eu pobl a'r heriau sy'n eu hwynebu. A minnau wedi astudio agweddau ar daearyddiaeth ddynol yn rhan o'm cwrs gradd gallaf yn awr asesu'n feirniadol gyfraniad grwpiau fel VEGA i weledigaeth llywodraeth Ecuador i wella ansawdd bywyd yn y cymunedau anghysbell hyn, a mynd i'r afael â materion pwysig megis diffyg maeth, tldi a diffyg addysg.

Budd personol

- Datblygu fy annibyniaeth a'm hunanhyder drwy deithio ar fy mhen fy hun am y tro cyntaf erioed
- Meithrin fy sgiliau cymdeithasol drwy gydweithio a chyd-fyw â phobl newydd, gwneud ffrindiau newydd a chreu atgofion a fydd yn para am byth
- Meithrin dealltwriaeth ehangach o fywyd mewn gwlad sy'n datblygu
- Dysgu mwy am ofynion iechyd a diogelwch teithio ar fy mhen fy hun mewn gwlad dramor
- Cyfle i gynnig cymorth i boblogaethau lleol

Elliot Hoyle (*Daearyddiaeth Ffsegol F840*)

Gwaith Maes ar gyfer traethawd hir ar Glacier Noir, Ffrainc

Bu gwobr deithio'r adran o gymorth i ariannu fy ngwaith ymchwil at draethawd hir y drydedd flwyddyn, sef astudio cyfradd feirioli rhan o'r Glacier Noir yn Alpau Ffrainc dros gyfnod o 10 diwrnod. Roeddwn yn ddigon ffodus i gael cymorth dau gyfaill agos i mi (Will a Tom), ac fe dalodd y wobr deithio am ein costau teithio a llety (gweryslla). Roedd yn lleoliad hardd iawn, a boom yn aros mewn maes gweryslla i lawr y dyffryn o Glacier Noir ym mhentref Ailefroide, a'r mynyddoedd o bob tu i ni. Mae Glacier Noir ei hun ym Mharc Cenedlaethol Ecrins, ardal o fywyd gwylt a golygfeydd hynod drawiadol sy'n boblogaidd iawn ymhlith dringwyr a cherddwyr fel ei gilydd.

Bob dydd, roedd yn rhaid i ni gerdded am awr i gyrraedd ein safle astudio ar Glacier Noir, er mwyn mesur cyfradd feirioli'r iâ o dan orchudd malurion y rhewlif yn rheolaidd, a chasglu'r mesuriadau hynny. Roedd gennym rywfaent o amser rhydd bob prynhawn, a chawsom gyfle i wneud rhai gweithgareddau fel ymweld â llyn cyfagos, a'n ffefryn ni i gyd, Via Ferrata. Adnodd dringo yw Via Ferrata, lle rydych yn croesi clogwyni ar hyd llwybr o geblau diogelwch a grisiau dur, ac mae ar agor i bobl o bob gallu.

Cefais fodd i fyw ar fy nhaith, ond yn bwysicach na hynny llwyddais i gasglu data ar gyfer fy nhraethawd hir ar rewlifoedd. Byddaf yn bendant yn mynd yn ôl yno yn y dyfodol, a byddwn yn ei argymhell i bawb sy'n mwynhau dringo, cerdded, beicio, canŵio neu dreulio amser yn yr awyr agored.



Will a Tom yn mwynhau dringo'r Via Ferrata



Un o'r safleoedd astudio, yn dangos y malurion a gloddiwyd i'r rhew



Y tri ohonom wrth y Glacier Noir

Emily Brown (Daearyddiaeth Ffisegol F840)

Norwy 2015



Tromso am 1 yn y bore o dan golau dydd 24 awr

Diolch i Wobr Deithio Gareth Thomas cefais gyfle i fynd ar fy ymweliad delfrydol â Norwy am bythefnos dros yr haf.

Fe es i yn gyntaf i'r brifddinas, Oslo, lle cefais fwynhau'r diwylliant ac ymweld â'r harbwr, Parc Cerflunwaith Vigeland a'r amgueddfeydd ar benrhyn Bygdoy, sy'n dangos hanes Llychlynwyr Norwy a'r newidiadau diwylliannol drwy'r tai pren yn Amgueddfa Norsk.

Yna fe es i i ymweld â Tromsø, sydd yng ngogledd Norwy ac o fewn y Cylch Arctig. Yno gwelais haul ganol nos a 24 awr o olau dydd, a oedd yn ddigon i'm drysu'n lân i ddechrau ond a oedd eto'n brofiad hudolus. Yn Tromsø bwm ar deithiau cerdded a gweld golygfeydd anhygoel dros rwydwaith y ffordydd.

Ar ôl bod yn Tromsø teithiais i Bergen, ail ddinas fwyaf Norwy a elwir yn 'Borth i'r ffordydd'. Fe es i ar fordaith ar y ffordydd o Bergen drwy'r Osterfjord i Mostraumen gan gynnwys Heskjedalsfossen lle cawsom ddiod o'r rhaeadr. Y diwrnod wedyn cerddais yr enwog Stoltzekleiven a'i 800 o risiau lle mae'r bobl leol yn aml yn rasio am y cyntaf i'r copa! Ar y copa mae golygfeydd hynod drawiadol dros y ddinas a'r ffordydd. Ymlaen â fi wedyn i Rundamanen, Blamanen a Floyen lle roedd rhagor o olygfeydd anhygoel. Mae Bergen yn enwog hefyd am ei masnach pysgod a'i marchnadoedd ac felly ymgollais yn y diwylliant a mwynhau sawl pryd

Bryggen, Bergen, tai hanesyddol masnach pysgod o fewn ardal treftadaeth y byd UNESCO



Amgueddfa cwch Lychlynnaudd, Oslo

o pysgod ar yr harbwr. Hefyd yn yr harbwr roedd Bryggen, y tai masnachu pysgod hanesyddol yn ardal treftadaeth byd UNESCO.

Teithiais ar reilffordd Bergen ar fy ffordd yn ôl i Oslo, sy'n enwog am fod yn un o'r teithiau trên prydferthaf yn y byd, dros Hardangervidda, llwyfandir mynydd uchaf Ewrop.

Credaf fod y daith wedi cyfnerthu fy nghwrs astudio tair blynedd yn Aberystwyth ac yn arbennig felly'r modiwlau ar rewifoedd gan i mi gael gweld tirluniau ffordydd Norwy. Mae gweld y ffordydd dros of fy hun wedi cyfoethogi fy ngwybodaeth am y broses rewlifol sy'n creu'r tirluniau trawiadol hyn. Manteisiais i'r eithaf ar y daith i wneud llawer iawn o waith ymchwil er mwyn datblygu dealltwriaeth fwy manwl o'r ymchwil sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Cwrddais â phobl o'r un anian â mi a llawer o Norwyaid cyfeillgar ar fy nhaith, a mwynhau cymharu diwyllianau â nhw.

Mae ymweld â Norwy ar ddiwedd cwrs gradd gwych wedi rhoi i mi egni ac angerdd o'r newydd dros ddaearyddiaeth ac rwy'n mawr obeithio y bydd yn hwb i mi i wynebu heriau newydd a phrosiectau newydd ar ôl cwblhau fy ngradd, beth bynnag y bont. Fy ngobaith yw y bydd fy mrwdfrydedd dros ffenomena daearyddol yn esgor ar sgysiau yn y gweithle ac yn gymdeithasol a fydd yn ysbrydoli eraill i deithio, archwilio a gwarchod y byd anhygoel rydym yn byw ynddo.

Lowri Jones (Daearyddiaeth F800)

Creta 2015



Spinalonga o'r cwch

Yr haf diwethaf dyfarnwyd Gwobr Deithio Gareth Thomas i mi gan yr adran Daearyddiaeth. Helpodd y £400 fi i ariannu taith i Greta, ynys fwyaf Gwlad Groeg, i'r de-orllewin i'r tir mawr. Dewisais aros yn nhref arfordirol fechan Stalida, tref dawel ar lan y môr a chanddi draeth gwyh. Roedd Stalida yn lleoliad canolog i allu teithio i wahanol fannau ar yr ynys bob dydd.

Yn ystod ein hymweliad â Chreta aethom i Spinalonga, ynys fechan oddi ar arfordir Penrhyn Kolokytha, sy'n enwog am fod yn wladfa i wahangleifion yn ystod yr 20fed ganrif a lleoliad yn nofel boblogaidd Victoria Hislop The Island. Wrth nesáu at Spinalonga fe welwch yn syth y gaer fawreddog a adeiladwyd gan y Fenisiaid pan oedd Spinalonga yn eu meddiant. Y peth cyntaf a welwch wedi i chi gyrraedd yr ynys yw'r twnnel tywyll bygythiol yr oedd y gwahangleifion yn ei alw'n 'borth uffern'. Wedi i chi fynd drwy'r twnnel fe welwch ar yr ochr arall dai wedi eu hail-greu i ddangos sut y byddai'r gwahangleifion wedi byw, gyda stryd fawr, siopau, tai a meddygfa.

Er mwyn cyrraedd Spinalonga roedd yn rhaid hwylio o Agios Nikolaos, tref farchnad ar yr arfordir. Roedd Agios Nikolaos yn wahanol i'r manau eraill y buom yn ymweld â nhw ar yr ynys, yn llawn adeiladau modern, yn enwedig yn ardal glan y môr a oedd wedi ei hailddatblygu. Roedd yn ddiddorol cerdded drwy'r dref, a'i rhywiau serth wedi'u gorchuddio â grisiau a choed ffrwythau. Roedd yn dipyn o gamp cerdded y rhywiau yn haul crasboeth canol dydd! Er hynny, roedd yn werth dringo er mwyn gweld y golygfeydd o ben y dref dros y porthladd. Eistedd wedyn i gael cinio yn y porthladd a gorffwys ein traed, a gwyllo'r pysgod yn nofio oddi tanom yn y dŵr clir.

Yn ystod ein hymweliad â Chreta aethom i ddinas Heraklion, y bumed ddinas yng Ngwlad Groeg o ran maint. Yno treuliasom y rhan fwyaf o'n hamser yn amgueddfa archeolegol Heraklion. Mae yn yr

amgueddfa gasgliad helaeth iawn o gelf Minoaidd ac eitemau o ddiddordeb diwylliannol o hanes Creta a Groeg. Fy hoff eitemau oedd y cofebau a achubwyd o balas hynafol Knossos, a oedd yn rhoi cipolwg gwyh ar sut y byddai'r palas wedi edrych yn ei anterth ynghyd â gwell dealltwriaeth o ddiwylliant y Minoaid.

Tua diwedd ein hamser yng Nghreta daethom o hyd i ganolfan achub anifeiliaid lle roedd amrywiaeth o rywogaethau o bysgod ac ymlusgiaid. Roedd y gwaith roedden nhw'n ei wneud yno i helpu'r bywyd gwyllt lleol yn ysbrydoliaeth. Roedd ganddyn nhw hanes llwyddiannus o ryddhau llawer o anifeiliaid yn ôl i'w cynefin, ond roedd rhai na allent eu rhyddhau. Crwban môr a ysgubwyd i'r lan, yn ddall, oedd un, ac enghraifft arall oedd y neidr boa wasgu a fu'n anifail anwes ond roedd ei pherchennog wedi cefnu arni hi. Roedd y rhain erbyn hyn yn byw gydag eraill yn nhŷ ymlusgiaid ac acwariwm y ganolfan achub. A thrwy'r holl amser y buom ni yno, yn rhedeg o gwmpas ein traed, roedd crwban bach roedden nhw wedi'i enwi, yn addas iawn, yn Usain Bolt.

Roedd y daith hon i Greta yn fuddiol iawn ar gyfer fy nhraethawd hir yn y drydedd flwyddyn. Cyn imi fynd i Greta bues i'n cloffi rhwng gwahanol bynciau i'm traethawd hir; doeddwn i ddim yn siŵr pa bwnc i'w wneud. Ond yn ystod fy amser yng Nghreta des i i sylweddoli mai astudio'r diwydiant twristiaeth oedd fy niléit, gan fy mod i'n ymddiddori yn y ffaith bod cynifer o bobl yng Nghreta yn dibynnu ar dwristiaeth i ennill eu bara menyn. Heb yr ysgoloriaeth deithio hon, ni fuaswn i byth wedi gallu mynd ar y daith hon a oedd mor fuddiol yn bersonol, yn ogystal ag o safbwynt academiaidd. Roedd y budd personol hwnnw yn cynnwys cael profiad o ddiwylliant gwahanol a chael dealltwriaeth ehangach o'r byd, ac ni fyddai hynny wedi bod yn bosib oni bai am yr ysgoloriaeth deithio hon.



Pen tarw o'r amgueddfa archeolegol Heraklion yn dangos rhywfaint o gelf Minoaidd



Crwban bach, o'r enw Usain Bolt, yn y ganolfan achub anifeiliaid



Enghraifft o tebot hynafol, yn darlunio Dduwies Hera, o'r amgueddfa archeolegol



Agios Nikolaos



Thomas Wiacek (Daearyddiaeth F800) Gwlad yr Iâ 2015



Ym mis Mehefin 2015 cefais gyfle i deithio i Wlad yr Iâ am bythefnos yn rhan o wobrau teithio ADGD. Cymerais ran mewn prosiect gwirfoddoli gyda'r corff anllwywodraethol SEEDS o Wlad yr Iâ, sy'n cydlynu amryw o brosiectau, y rhan fwyaf yn ymwneud â'r amgylchedd. Roedd y prosiect yr oeddwn yn rhan ohono mewn tref o'r enw Vík í Myrdal â phoblogaeth o tua 300 (ydy, mae hynny'n cyfrif fel tref yng Ngwlad yr Iâ!!). Mae Vík 110 o filltiroedd o'r brifddinas, Reykjavik a dyma'r dref fwyaf deheuol yng Ngwlad yr Iâ.

Nod y prosiect oedd cynnal a chadw llwybrau cerdded o amgylch gwaelod llosgfynydd Katla a pharatoi Vík at ddechrau'r tymor twristiaeth. Ar gopa Katla mae rhewlif Myrdalsjökull, a chan nad yw hynny wedi digwydd ers tro byd, mae sôn y bydd Katla yn ffrwydro cyn hir. Yn syth ar



Haenau o lwch folcanig (du) yn y pridd

ôl i ni gyrraedd cawsom wybod y byddai pawb yn cael neges destun â rhybudd ddwyieithog pe bai'r llosgfynydd yn debygol o ffrwydro, a phe caem rybudd byddai'n rhaid i ni fynd i'r eglwys sydd ar dir uchel – roedd hyn oherwydd y byddai'r rhewlif yn dadmer ac yn achosi fflachlifogydd yn Vík sydd ar waelod y dyffryn.

Yn ogystal â gweithio ar y llwybrau cerdded fe wnaethom nifer o dasgau eraill o amgylch y dref, yn adfer gorsaf trydan dŵr ac yn gosod ffensys ar y traeth. Un diwrnod, aethom i berfeddion y wlad a helpu i osod seilwaith dŵr mewn caban y mae'r clwb cerdded lleol wrthi'n ei adeiladu i'w ddefnyddio gan gerddwyr allan ar y mynyddoedd sydd am aros dros nos.



Gosod pibell dŵr wrth ymyl gorsaf i gerddwyr yn y mynyddoedd

Mae Gwlad yr Iâ yn lle gwych o safbwynt daearyddwyr a chefais weld llawer o'r pethau yr oeddwn wedi bod yn dysgu amdanynt, yn arbennig ym modiwl rhewlifoedd yr ail flwyddyn ac amgylcheddau arwyneb y ddaear yn y flwyddyn gyntaf. Rwyf nawr yn ystyried newid i fwy o fodiwlau daearyddiaeth ffisegol yn fy nhrydedd flwyddyn. Ar y daith gyda mi roedd 9 o wirfoddolwyr eraill o bob rhan o'r byd gan gynnwys Sbaen, De Corea, Canada, a myfyriwr daearyddiaeth o Nottingham! Roedd gennym berthynas dda â'r bobl leol hefyd a chawsom wahoddiad gan deulu lleol i farbeciw ac i chwarae gêm o bêl foli gyda chriw o bobl leol! Fe wnaeth pob un ohonom gysylltiadau da ac rwy'n siŵr y byddwn yn cadw mewn cysylltiad. Hoffwn ddiolch i'r ADGD am roi'r cyfle hwn i mi i ymweld â Gwlad yr Iâ a chael y profiad gwych hwn.

Tom Reader (Daearyddiaeth F800) Gwlad yr Iâ 2015



Parc Cenedlaethol Thingvellir

Beth wnaethom ni a ble aethom ni...

Yn ystod ein hymwelriad â Gwlad yr Iâ aethom i Reykjavik, arfordir y de a'r gorllewin a'r cylch aur, a chael cyfle i weld rhaedrau rhyfeddol Gulfoss a Skogafoss. Gwelsom hefyd byllau geothermol a ffynhonnau poeth, fel ffynnon boeth enwog Strokkur sy'n ffrwydro bob yn ychydig funudau. Un o'r uchafbwyntiau i mi oedd cael ymweld â blaen rhewlif Solheimajökull lle cawsom gyfle i ddysgu am effeithiau newid yn yr hinsawdd ar enciliad y rhewlif.

Gorsaf bŵer geothermol Hellisheidi.



Cawsom wybod llawer am ddiwylliant Gwlad yr Iâ, ei mythau a'i chwedlau, a'r pwys y maent yn ei roi yno ar fyfyr natur. Dysgasom lawer hefyd am y grymoedd tectonig a geothermol sydd ar waith yn y wlad, a chawsom gyfle i fanteisio'n llawn ar un

o'r agweddau mwyaf ymlaciol ar hyn o ll drwy ymweld â'r Lagŵn Glas!

Nod y wobr...

Mae Ysgoloriaeth Deithio Gareth Thomas yn helpu myfyriwr i ariannu teithiau ac archwiliadau o amgylch y byd. Bu'r wobr o gymorth i ariannu fy ymweliad i a chyd ddaearyddwyr â Gwlad yr Iâ ym mis Mehefin 2015.

Y budd...

Roedd yr ymweliad yn gyfle heb ei ail i archwilio rhai o'r astudiaethau achos a'r themâu y buom yn eu hastudio yn ein darlithoedd ar rewlifeg, geoberyglon a gweithgarwch llosgfynyddoedd. Mae'r daith hefyd wedi caniatáu i mi ddatblygu fy sgiliau cynllunio a threfnu taith ar gyllideb. Bydd hon yn sgil bwysig iawn gan fy mod ar fin dechrau cwrs ymarfer dysgu i fod yn athro daearyddiaeth mewn ysgol uwchradd. Mae cynllunio a threfnu gwaith maes yn rhan allweddol o'r cwrs, ac felly mae gwobr Gareth Thomas wedi bod o gymorth i mi i ddatblygu'r sgiliau hyn..

Rhaeadr Gulfoss



Cyfarchion gan y Gymdeithas Ddaeryddiaeth



Ni yw un o gymdeithasau mwyaf a gorau Prifysgol Aberystwyth ac rydyn ni'n dal i dyfu. Bu hi'n flwyddyn hynod lwyddiannus hyd yn hyn, gyda nifer o ddiwyddiadau.

Cawsom sesiwn "beth fuaswn i wedi hoffi cael gwybod y llynedd" ar ddechrau'r flwyddyn, lle cynigiwyd gair i gall i'r myfyrwyr newydd yn eu blwyddyn gyntaf, ac atebion i'r cwestiynau roedden nhw eisiau eu gofyn. Ar ôl hynny cawsom sesiwn cwrdd a chyfarch lle buom yn ateb cwestiynau am y cysiau ar y cyd â staff yr Adran.

Wedyn cawsom farbeciw ar y traeth, yn gwneud yn fawr o'r tywydd braf, yn mwynhau bwyd da a chwrdd â phobl ar yr un cysiau – yn ogystal â chymryd rhan mewn nifer o gemau, gan gynnwys rygbi a pêl-droed.

Cawsom ddwy daith wych y tymor hwn. Ein gwibdaith flynyddol i Anifeilfa'r Borth oedd y



gyntaf. Mae'n rhaid mai hon oedd y daith fwyaf poblogaidd i ni ei chynnal erioed. Roedd hi'n wych cael y cyfle i weld anifeiliaid anghyffredin a chael cyfle i ddod i adnabod ein cyd-fyfyrwyr yn well ar yr un pryd. Daeth criw da hefyd i'n hail wibdaith – i saethu peli paent, lle roedd pawb yn gorfod brwydro yn erbyn y tywydd garw, yn ogystal â brwydro â'i gilydd.

Mae ein timoedd pêl-droed a rygbi 5-pob-ochr yn dal i fynd o nerth i nerth. Erbyn hyn mae gennym ddau dîm dynion ac un tîm merched, ac fe berfformiodd pob un yn wych yn nhrnamaint 7-pob-ochr y llynedd. Roedd timoedd y ddwy gamp yn chwarae ar ddiwrnod y Gymdeithas Ddaeryddiaeth yn erbyn y Gymdeithas Hanes, pan gafodd y tîm rygbi ddiwrnod i'r brenin yn ennill 63-0. Yn anffodus, colli wnaeth y tîm pêl-droed, 3-2. Aeth y cwis i'r pen, i'r cwestiwn penderfynu terfynol, ond Hanes gipiodd y gwpan eleni.



Arddangosfa ar Ddiflaniad Rhewlifoedd Everest yng ngwyl Gwyddoniaeth Haf y Gymdeithas Frenhinol, Gorffennaf 2015

Fe wnaeth tîm o staff academiaidd a myfyrwyr ôl-raddedig o Ganolfan Rewlifeg yr adran ymuno â chydweithwyr o Brifysgolion Sheffield, Leeds, Northumbria a Hertfordshire i arddangos eu hymchwil yn Arddangosfa Gwyddoniaeth Haf y Gymdeithas Frenhinol eleni. Ymunodd aelodau presennol y Ganolfan Rewlifeg, yr Athro Neil Glasser, yr Athro Michael Hambrey, Dr Tristram Irvine-Fynn a Morgan Gibson a chyn-aelodau cyswllt Dr Ann Rowan, Dr Duncan Quincey, Owen King a Dr Matt Westoby â thîm o 16 i drafod y modd y mae'r rhewlifoedd o amgylch mynydd uchaf y byd (Everest, 8848-m) yn crebachu yn gyflym iawn.

"Mae ein gwaith maes ar rewlif Khumbu 12 mlynedd yn ôl, a gwaith maes pellach gan ein myfyrwyr ôl-raddedig, wedi ei gyfuno â'r dadansoddiad o ddelweddau lloeren, yn dangos yn glir bod y rhewlif hwn a'r rhai cyfagos yn diflannu'n gyflym. Mae hyn yn digwydd mewn modd sydd yn galluogi i lynnoedd rhewlifol peryglus ddatblygu. Hefyd, mae'r daearynyfeydd diweddar yn amlygu pa mor agored i niwed yw pobl Nepal i'r bygythiad o dirlithriadau. Mae rhewlifoedd yr Himalaya yn ffynhonnell ddŵr i 1.3 biliwn o bobl Asia, felly maent yn adnodd hanfodol sydd yn lleihau'n gyflym. Rydyn ni eisiau darganfod pam mae'r rhewlifoedd yn ymateb mor gyflym i newid hinsawdd, a chael gafael ar ddata gwell fel y gallwn ragweld y newidiadau yn fwy cywir." (Yr Athro Michael Hambrey)

Defnyddiodd y tîm ffotograffau a lluniau fideo o rewlifoedd Khumbu, Imja, Lhotse a Ngozumpa, wedi eu cyfuno gydag arbrofion ymarferol yn defnyddio modelau 3-D i ddangos sut mae'r rhewlifoedd hyn yn ymateb i newid hinsawdd heddiw ac yn y dyfodol, a sut y bydd hynny'n effeithio ar y poblogaethau enfawr sy'n dibynnu ar y cyflenwad dŵr. Ar wahân i'r arddangosfa, cynhyrchwyd hefyd fideo byr yn esbonio arwyddocâd yr ymchwil (<https://www.youtube.com/watch?v=k9WOV1gK0LU>), ac mae cyfres o ffotograffau ar gael ar y wefan 'Glaciers Online' (<http://www.swisseduc.ch/glaciers/himalaya/khumbu/index-en.html>) sy'n adnodd addysgol pwysig.

Derbyniwyd nawdd gwerthfawr i'r arddangosfa gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, Consortiwm Newid Hinsawdd Cymru, Cymdeithas Ymchwil Cyfnod y Cwaternaid a'r pum Prifysgol a fu'n cymryd rhan.



Glaw trwm yr haf yn gyrru toddi cyflymach yn yr Ynys Las

Yn ôl astudiaeth newydd sydd wedi ei chyhoeddi yn Nature Geoscience, gwelwyd bod llen iâ'r Ynys Las yn cyflymu mewn ymateb i law yn disgyn ar yr wyneb a rhew wedi toddi sy'n cael eu cysylltu â glaw trwm ar ddiwedd yr haf.

Cyfunodd Dr Samuel Doyle o'r Ganolfan Rewlifeg a'r Athro Alun a'r Athro Bryn Hubbard, a thîm rhyngwladol o gydweithwyr, gofnodion o symudiad yr iâ, pwysedd dŵr ar wely'r llen iâ, a faint o ddŵr oedd yn cael ei ryddhau i afonydd, gyda meteoroleg ar yr wyneb ar draws ymyl orllewinol llen iâ'r Ynys Las, a llwyddwyd i fesur effeithiau wythnos anarferol o dywydd cynnes a gwlyb ar ddiwedd mis Awst a dechrau mis Medi, 2011.

Gwelsant fod y system dywydd seiclonig wedi arwain at lif eithriadol o ddŵr oddi ar yr wyneb – cyfuniad o rew yn toddi a glaw – a

orlwythodd system ddraenio waelodol y llen iâ, gan achosi cynnydd amlwg yn llif yr iâ ar draws sector orllewinol y llen iâ gan ymestyn 140 km ar hyd y llen o'r môr.

Roedd amseru'r digwyddiad ar ddiwedd yr haf yn hanfodol. Digwyddodd ar ddiwedd y tymor toddi, ac roedd system ddraenio'r llen iâ wedi dechrau cau i lawr. Fel ag yr oedd hi, nid oedd y system ddraenio yn gallu ymdopi. Roedd pwysau dŵr uchel yn codi'r llen iâ oddi ar ei gwely, gan hwyluso'i thaith.

Nid yw'r systemau tywydd seiclonig, neu bwysedd isel, yn syndod i ni yma yn Aberystwyth gan eu bod yn rhan gynhenid o'n tywydd bob dydd – ac yn dod â gwynt a glaw atom yn aml. Ond, mae tywydd o'r fath yn llai cyffredin ar draws yr Ynys Las sydd fel arfer yn mwynhau systemau sefydlog o bwysedd uchel uwch ben y llen iâ, ac eira yn ystod y gaeaf.

Ers y 1980au, pan ddechreuwyd cofnodi mesuriadau yn nhref Kangerlussuaq yng ngorllewin yr Ynys Las, sy'n ganolbwynt i'r astudiaeth, mae canran y gwlybanaeth sydd bellach yn disgyn fel glaw yn hytrach nag eira wedi cynyddu ac ymestyn i ddiwedd yr haf a'r hydref, ac mae glaw bellach yn disgyn yn uwch ar y llen iâ.

Nid oedd effaith y fath law wedi cael ei hystyried wrth asesu toddi a llif unrhyw len iâ. Mae'r ffaith na wnaethpwyd hynny yn bwysig, oherwydd er bod tywydd seiclonig o'r fath yn brin ar draws yr Ynys Las ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd yn digwydd yn amlach yn y dyfodol, ac yn gallu chwarae rôl gynyddol wrth yrru colledion màs o'r llen iâ, sydd ar hyn o bryd yn cyfrannu mwy na 0.7 mm y flwyddyn i lefel y môr yn fyd-eang – cyfradd sydd o leiaf ddwywaith yn fwy na chyfraniad Antarctica.



Prosiect Tyllu Chew Bahir: taflu goleuni newydd ar esblygiad dyn

Mae'r Athro Henry Lamb, prif ymchwilydd mewn newid amgylcheddol Cwaternaidd yn yr adran, yn arwain prosiect cydweithredol pwysig rhwng Prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Lerpwl, Newcastle, Rhydychen a St Andrews, ac Arolwg Daearegol Prydain, yn ymchwilio i esblygiad a mudo dyn yn nwyrain Affrica.

Mae Prosiect Tyllu Chew Bahir yn canolbwyntio ar fasnau llyn eponymaidd yn ne Ethiopia, yn Nyffryn Hollt Mawr Affrica, ac yn agos at safleoedd canfod y ffosilau cynharaf o'n rhywogaethau, yr Homo sapiens. Bydd y prosiect yn darparu cofnod manwl o newidiadau mewn tymheredd, glaw a llystyfiant sy'n ymestyn dros y 500,000 o flynyddoedd diwethaf, gyda'r nod o ganfod sut y mae newidiadau hanesyddol yn yr hinsawdd wedi dylanwadu ar esblygiad a mudo dyn.

Mae'r Athro Lamb yn nodi bod "syniadau am sut y gallai newid yn yr hinsawdd fod wedi dylanwadu ar ymddangosiad a'r modd y gwasgarodd bodau dynol modern wedi parhau'n ddirgelwch i raddau helaeth. Byddwn nawr yn gallu cymharu data ffosilaidd ac archeolegol â chofnod manwl o amrywiadau yn yr hinsawdd. Bydd hyn yn ein galluogi i brofi'n fwy trylwyr y damcaniaethau hyn."

Mae'r prosiect yn rhan o gynllun rhyngwladol Prosiect Tyllu Safleoedd Hominin a Phaleolynnoedd (HSPDP). Ariannwyd y gwaith gan y Prosiect Tyllu Cyfandir Rhyngwladol (ICDP), Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC), Cyngor Ymchwil yr Almaen (DFG) a'r Ymddiriedolaeth Wyddoniaeth Genedlaethol (NSF).



Llongyfarchiadau, Dr Hywel Griffiths



Gwobr am Gyfraniad Sylweddol i Wyddoniaeth

Llongyfarchiadau i Dr Hywel M. Griffiths ar gael ei ddewis i dderbyn Gwobr Goffa Eilir Hedd Morgan eleni. Cyflwynwyd y wobwr flynyddol hon i Hywel fel unigolyn dan ddeugain oed sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i wyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ef yw'r ail berson yn unig i dderbyn y wobwr fawreddog hon, a dyfarnwyd y wobwr iddo yng Nghynulliad Blynyddol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar 3 Mawrth 2015.

Yn ogystal â chyfraniad mawr Hywel i waith dysgu daearyddiaeth ffisegol drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr Adran, ef yw cadeirydd presennol Pwyllgor Daearyddiaeth ac Amgylchedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y mae'n is-olygydd y cyfnodolyn **Gwerddon**, ac mae un o'i brosiectau ymchwil cyfredol yn ymwneud â chofnodion o lifogydd ym Mhatagonia.

Enillydd Cadair Eisteddfod Genedlaethol 2015

Mae doniau Hywel yn ymestyn y tu hwnt i furiau Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear gan mai ef oedd enillydd y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd ym Meifod ym mis Awst. 'Gwe' oedd testun cystadleuaeth y Gadair eleni, ac roedd awdl Hywel yn trafod y gwrthdaro diweddar yn Gaza, ac yn ei gymharu ag agweddau ar Ryfel Cartref Sbaen yn y 1930au. Enillodd glod mawr am y gwaith fel "bardd sy'n gweld ymhell ac yn gwrando'n astud". Nid dyma'r tro cyntaf i Hywel gael llwyddiant yn yr Eisteddfod: enillodd y Goron yng Nghaerdydd yn 2008, ond gwiredodd freuddwyd oes wrth ennill y Gadair eleni.

Dyrchafu yn Uwch-ddarlithydd

Ac ar ddiwedd ei flwyddyn fawr, gall Hywel hefyd ddathlu dyrchafiad haeddiannol yn Uwch-ddarlithydd. Llongyfarchiadau ar bob dim!

Dathlu 50 mlynedd o ymchwil a chyhoeddi academiaidd



Mae'r Athro Ron Fuge, Cymrawd Ymchwil Hŷn yn yr Adran, yn dathlu 50 mlynedd o ymchwil a chyhoeddi academiaidd, o'i bapur cyntaf ar sbectroffotometreg fanadiwm i'w gyfraniad diweddaraf yn trafod pwysigrwydd iodine mewn iechyd dynol. Llongyfarchiadau Ron!

Fuge, R., 1967. The spectrophotometric determination of vanadium in rocks. *Analytica Chimica Acta* **37**, 310-315 (Cyflwynwyd Gorffennaf 1966)

Fuge, R., Johnson, C.C., 2015. Iodine and human health, the role of environmental geochemistry and diet, a review. *Applied Geochemistry* **63**, 282-302 (Cyflwynwyd Mehefin 2015)

Llongyfarchiadau i'r aelodau canlynol o'r Adran ar gael eu dyrchafu yn ddiweddar:

Yr Athro Paul Brewer (Cadair)

Yr Athro Helen Roberts (Cadair)

Dr Peter Bunting (Darllenydd)

Dr Hywel Griffiths (Uwch-ddarlithydd)

Dr Jesse Heley (Uwch-ddarlithydd)

Dr Gareth Hoskins (Uwch-ddarlithydd)

Dr Tristram Irvine-Fynn (Uwch-ddarlithydd)

Diwrnod ym mywyd...

Dr Catherine Cottrell

Beth yw teitl eich swydd?

Lecturer in Human Geography

What's your area of expertise?

I am a broadly trained human geographer with particular interests in political and cultural geographies of post-Soviet Europe. My research focuses on citizenship, nationalism, and geopolitics.

Beth yw eich maes arbenigedd?

Mae'r swydd yn rhoi boddhad mawr i mi, mae'n hwyl, yn her, ac weithiau'n draed moch! Rwy'n dysgu rhywbeth bob dydd – gan fy nghydweithwyr neu fy myfyrwyr. Daw'r rhan fwyaf o'r hwyl yn yr ystafell ddosbarth gyda'r myfyrwyr, yn enwedig os bydd myfyrwyr yn holi cwestiynau sy'n arwain at drafodaeth neu os byddwn yn gwneud ymarfer sy'n cynnig gwahanol safbwyntiau ar bynciau'r modiwl. Rwyf wrth fy modd fod myfyrwyr Aber yn fy herio i feddwl yn wahanol am bynciau fy ngwaith ymchwil y tu allan i'r dosbarth! Mae'r ymateb rwy'n ei gael ganddynt hefyd yn fy ngwneud i'n well hyfforddwr, ac rwy'n gwerthfawrogi hynny. Mae cyfle byth a hefyd yn y swydd hon i mi wella'r hyn rwy'n ei wneud.

Disgrifwch ddiwrnod nodweddiadol

`D oes dim y fath beth! Gan ddibynnu ar ba adeg o'r semester neu'r flwyddyn ydyw, byddaf yn canolbwyntio'n bennaf ar ddysgu, ysgrifennu papurau, paratoi ar gyfer darlithoedd sydd i ddod, cynllunio fy ngwaith ymchwil, neu'n marcio gwaith cwrs. Efallai byddaf yn gweithio yn fy swyddfa neu yng nghaffi IBERS – mae'n dibynnu beth sydd ar y gweill ar y pryd.



Beth sy'n hwyl?

Mae'r cyrsiau maes yn arbennig o hwyllog. Rwyf wedi bod ar ymweliad maes myfyrwyr yr ail flwyddyn i Efrog Newydd yn ogystal â'r ymweliad maes â Phlas Menai/Gogledd Cymru i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf. Rwy'n mwynhau dod i adnabod myfyrwyr yn well yn ystod ymarferion y cyrsiau maes, yn ogystal â gallu dangos i fyfyrwyr sut mae ein hymchwil ni'r daeryddwyr yn berthnasol "yn y byd go-iawn"

Beth sy'n her?


Dod o hyd i gydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith. Mae'n hawdd canolbwyntio'n llwyr ar waith a'r holl bethau sy'n rhaid eu gwneud ar gyfer llwyddo fel darlithydd. Ond rwyf wedi gweld sawl ysgolhaig yn cyrraedd pen eu tennyn ar ôl anghofio gofalu am eu hunain yn feddylol, yn emosiynol, neu'n gorfforol. Weithiau mae'n rhaid diffodd y cyfrifiadur a mynd am dro neu ddarllen llyfr. Mae bod yn synhwyrol (a chynnal perthnasau) yn bwysig!

Beth yw eich cyngor i fyfyrwyr?

Peidiwch â bod ofn holi cwestiynau. Gwnewch bethau sy'n anghyfarwydd i chi. Siaradwch â phobl sydd wedi cael profiadau gwahanol, sy'n dod o gefndiroedd gwahanol, ac sy'n gweld pethau'n wahanol hefyd. Gwnewch eich penderfyniadau eich hun – peidiwch â gadael i eraill ddweud wrthyhych pwy ydych chi. A chofiwch ddileu eich cyfrif Facebook. Bydd eich bywyd yn haws.



Ar y Silff Lyfrau



“Y llyfr gorau am win a gyhoeddwyd erioed” yw disgrifiad un o bapurau newydd yr Unol Daleithiau o’r argraffiad newydd o’r ‘Oxford Companion to Wine’, lle mae’r Athro Alex Maltman yn ymdrin â phob peth sy’n ymwneud â daeareg gwinllanoedd. Mynychodd Alex lawnsiad y gyfrol i enwogion yn Llundain ddechrau mis Medi.

Ar ben hynny ysgrifennodd Alex y brif erthygl – ar amser daearegol a phriddoedd gwinllanoedd – ar gyfer rhifyn haf y cylchgrawn chwarterol uchel ael “*The World of Fine Wine*”. Ym mis Gorffennaf, treuliodd Alex wythnos yn westai i’r sefydliad “*Wine Country Ontario*” pryd y cyflwynodd brif anerchiad y symposiwm ar y cysyniad o fwneiddiad mewn gwin. Ar hyn o bryd mae Alex yn aelod o Banel Ymgynghorol y symposiwm Gwin Hinsawdd Glaear Rhyngwladol, sy’n cyfarfod bob pedair blynedd – yn Tasmania yn fwyaf diweddar a chyn hynny yn Nhalaith Washington – ac a fydd yn ymgynull fis Mai nesaf yn Brighton, Lloegr. (<http://www.icws2016.com/cool-climate/international-cool-climate-wine-symposia/>)



Yn y gwaith golygedig pedair cyfrol ar “*Space*” yn y gyfres daearyddiaeth Cysyniadau Beirnadol Routledge, mae’r Athro Peter Merriman yn darparu’r gwaith cyfeirio awdurdodol cyntaf ar ysgryfeniadau clasurol a blaenllaw yn ymwneud â dulliau damcaniaethol o ystyried y gofod a gofodoldeb. Mae’r gwaith yn cynnwys gweithiau allweddol ym meysydd daearyddiaeth ddynol, athroniaeth a’r gwyddorau eangach, y gwyddorau cymdeithasol a’r dyniaethau – o Descartes, Kant ac Einstein hyd at Michel Foucault, Bruno Latour, David Harvey, a Doreen Massey – ynghyd â thraethawd rhagarweiniol helaeth.



Priddoedd yw’r haen deneuaf, fwyaf agos i’r wyneb o arwyneb y Ddaear: maent yn gyfuniad cymhleth o ddefnyddiau hindreuliedig gwreiddiol, mater organig, dŵr a nwyon y mae bodau dynol yn llwyr ddibynnol arnynt. Mae’n cymryd miloedd o flynyddoedd i ddatblygu pridd ffrwythlon, iach, ond gall rheolaeth wael arwain at ddirywiad buan a dinistriol. Dynododd y Cenhedloedd Unedig y flwyddyn 2015 yn Flwyddyn Ryngwladol Priddoedd mewn ymdrech i godi proffil yr elfen hanfodol hon ond un a ddibrisir yn aml o’n byd. Mae’n addas felly bod Andrew Thomas, ynghyd â’i gydweithiwr Francis Brearely, wedi cyhoeddi cyfrol olygiedig newydd ar briddoedd a’r deunydd o bridd yn y trofannau. Mae eu llyfr wedi dwyn ynghyd ymchwilwyr o bob rhan o’r byd i archwilio’r effeithiau y gall newid yn y defnydd o dir ei gael ar nodweddion a phrosesau pridd. Mae’n ymwneud ag effaith cynyddu amaethyddiaeth, cwmpo coed, erydiad, trefoliad a mwyngloddio ar ystod o brosesau a nodweddion tir drwy’r trofannau i gyd. Mae’n rhoi i ni giplun o’r sialensau sy’n ein hwynebu wrth sicrhau bod priddoedd yn cael eu rheoli’n gynaliadwy yn y dyfodol.

Erthyglau newydd

DR MARIE BUSFIELD:

Busfield, M.E. & Le Heron, D.P. (2015). A Neoproterozoic ice advance sequence, Sperry Wash, California. *Sedimentology* doi: 10.1111/sed.12210

DR CATHERINE COTTRELL:

Cottrell Studemeyer, C. (2015). Geographies of Flexible Citizenship. *Geography Compass*, 9, 565-576.

DR SAM DOYLE:

Doyle, S.H., Hubbard, A., van de Wal, R.S.W., Box, J.E. et al. (2015). Amplified melt and flow of the Greenland ice sheet driven by late-summer cyclonic rainfall. *Nature Geoscience*, 8, 647-653.

DR TRISTRAM IRVINE-FYNN:

Cook, J., Edwards, A., Takeuchi, N. & Irvine-Fynn, T. (2015). Cryoconite: the dark biological secret of the cryosphere. *Progress in Physical Geography* doi: 10.1177/0309133315616574

PROFESSOR MARK MACKLIN:

Foulds, S.A. & Macklin, M.G. (2015). A hydrogeomorphic assessment of 21st Century floods in the UK. *Earth Surface Processes and Landforms* doi: 10.1002/esp.3853

DR KIMBERLEY PETERS:

Peters, K. & Turner, J. (2015). Between crime and colony: interrogating (im) mobilities aboard the convict ship. *Social and Cultural Geography*, 16, 844-862.

DR JOE WILLIAMS:

Williams, J.J., McLaughlan, K.K., Mueller, J.R., Mellicant, E.M. et al. (2015). Ecosystem development following deglaciation: a new sedimentary record from Devils Lake, Wisconsin, USA. *Quaternary Science Reviews*, 125, 131-143.

Staff Newydd

Darlithydd cyfrwng Cymraeg a benodwyd yn ddiweddar mewn gwyddor amgylcheddol yn yr Adran Daeryddiaeth a Gwyddorau Daear yw Dr Marie Busfield, a gyflogir o dan gynllun recriwtio staff y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Graddiodd Marie gyda MGeol mewn Daeareg o Brifysgol Caerlŷr yn 2011, lle roedd ei hymchwil yn canolbwyntio ar darddiad clog-glai Pleistosenaid yn nwyrain Prydain yn ystod yr Oes Iâ Diwethaf.

Yn 2011 dechreuodd ar ei PhD yn Royal Holloway, Prifysgol Llundain, o dan oruchwyliaeth Dr Daniel Le Heron, cyn-fyfyriwr daeareg o Brifysgol Aberystwyth. Mae ei thraethawd prosiect ymchwil PhD, dan y teitl 'Sedimentology of the Sturtian icehouse: perspectives from Namibia, Australia and Western USA', wedi golygu archwiliad seiliedig ar waith maes o greigiau gwaddodol rhewlifol Neoproterosaidd (> 700 miliwn o flynyddoedd oed) er mwyn deall dosbarthiad a symudoledd y cruglwythi iâ hynafol hyn. Cafodd yr ymchwil hwn ei ariannu gan grantiau niferus o Royal Holloway, National Geographic, Cymdeithas Ddaearegol Llundain a Grŵp Ymchwil Gwaddodog Prydain.

Ymunodd Marie â ADGD a'r Ganolfan Rhewlifeg ym mis Hydref 2015, lle y bydd hi'n parhau i ymchwilio i rewlifon Neoproterosonig a mwy diweddar.



Troelli i ennill gyda ADGD

Sefydlwyd y dosbarth troelli adrannol y llynedd gyda'r bwriad o wneud y staff yn ADGD yn ffit ac yn iach. Bu'r dosbarth yn llawn o'r diwrnod cyntaf ac mae erbyn hyn yn ddigwyddiad wythnosol na fyddai'r rhai sy'n ei fynychu yn breuddwydio ei goll.

Dosbarth ymarfer grŵp cardio gyda cherddoriaeth yn gefndir ac yn cael ei arwain gan hyfforddwr yw troelli. Nid yw'n cynnwys unrhyw goreograffi cymhleth ac nid oes angen unrhyw gyd-drefniant, mae ei effaith yn isel ac felly dyma'r sesiwn ymarfer berffaith i fod yn rhan o ffordd brysur o fyw. Bob wythnos byddwn yn cael themâu cerddorol, bydd y staff yn anfon eu ceisiadau am ganeuon i mi eu cynnwys yn y rhestr sydd i'w chwarae... mae wythnos roc yn boblogaidd bob amser!

Mae'r dosbarth yn parhau am 45 munud a gellir llosgi hyd at 500 o galoriau yn dibynnu ar pa mor galed y byddwch chi'n gweithio. Bydd aelodau'r dosbarth yn rheoli eu cyflymder a'u hymwrthiant eu hunain ac, o ganlyniad, lefel yr effaith arnynt, felly gall fod mor hawdd neu mor heriol ag y maent am iddo fod. Byddaf yn sicrhau fy mod yn rhoi iddynt amrywiaeth gyda gelltydd serth a sbrintio caled, gyda'r canlyniad bod gan bawb yn y dosbarth wrid iach a bod grisiau'r tŵr yn sialens am weddill y diwrnod.

Ynghyd â manteision corfforol troelli, mae'r dosbarthiadau yn ffordd effeithiol o liniaru straen a rhoi i'r rhai sy'n cymryd rhan egwyl mewn diwrnod prysur ac yn diddymu'r gostyngiad ynni yn y prynhawn.

Fel yn achos llawer o bethau mewn bywyd byddwch yn cael allan ohono yr hyn a roddwch i mewn ynddo. Mae troelli brynhawn Mercher yn llawn ynni a brwdfrydedd, ac mae'n weithgarwch gwych i ffurfio tîm gan ein helpu i ddod i adnabod ein cydweithwyr y tu allan i'r gweithle ac i ddatblygu cystadleuaeth a chellwair cyfeillgar.

Mae sesiynau troelli yn cael eu rhedeg yn ddyddiol yng nghanolfan chwaraeon y Brifysgol, mae'n rhaid archebu lle ymlaen llaw ond gall unrhyw un eu fynychu.

Helen Stockley Jones #spinwitch 😊



BA Daearyddiaeth
BSc Human Geography
BSc Environmental Earth Science
BSc Environmental Science
BSc Geography
BSc Physical Geography

 www.facebook.com/AUIGES

 @AU_DGES

O Amgylch y Byd mewn 360 Credyd



D**A**RGANFOD

D**I**DDORI

BYWIO**G**I

YSBRY**D**OLI

ADGD yw'r adran Ddaearyddiaeth
orau yng Nghymru ac yn y 10 uchaf
yn y DG o ran grym ymchwil

RESEARCH EXCELLENCE FRAMEWORK 2014

Ymholiadau Derbyn Israddedigion:
Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear,
Prifysgol Aberystwyth, Adeilad Llandinam, Campws Penglais,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3DB, Cymru

Ffôn: (0)1970 622596
Ffacs: (0)1970 622659
E-bost: iges-admissions@aber.ac.uk